# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 350

Mai 2012

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Datblygu cnwd bio-ynni

**Rhaglen fridio *Miscanthus* integredig newydd i gyflymu datblygiadau masnachol.**

Mae datblygiad y cnwd biodanwydd addawol, *Miscanthus*, wedi cael hwb yn dilyn cyhoeddi cyllid ychwanegol o £6.4 miliwn dros bum mlynedd gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar gyfer rhaglen fridio integredig a chydweithredol.

Nod y rhaglen fridio yw cynhyrchu mathau masnachol newydd o *Miscanthus* sydd wedi ei optimeiddio er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol i ddiogelwch ynni yn y dyfodol.

Mae datblygu cnydau fel ffynhonnell bio-ynni yn rhan bwysig o chwilio am ffynonellau ynni sydd yn economaidd dderbyniol i gymryd lle tanwyddau ffosil.

Mae *Miscanthus*, glaswelltyn cynhyrchiol iawn o Asia sydd angen ychydig o fewnbwn, yn blanhigyn hynod addawol ar gyfer datblygiad bio-ynni.

Meddai Dr John Clifton-Brown, Penrhyn-coch, arweinydd y prosiect yn IBERS:

"Mae nodweddion ffisiolegol ardderchog *Miscanthus* yn golygu ei fod ymhlith y rhywogaethau planhigion mwyaf addawol ar gyfer cynhyrchu bio-más lignoselwlosig yn y DG a thu hwnt. Mae'r targedau ar gyfer gwella yn cynnwys nid yn unig cynnydd mewn cynhyrchiant ac ansawdd, ond hefyd mathau sydd yn seiliedig ar hadau a chyfraddau ymsefydlu cyflymach mwy cynhyrchiol tra'n costio llai i'w tyfu.

"Bydd yr arian LINK yma yn cyflymu datblygiad mathau masnachol newydd o Miscanthus er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ein targed i ddyblu cynnyrch ynni fesul hectar cyn 2030," ychwanegodd.



Dr John Clifton Brown yn arolygu yn Cae Lloi, ger Bow Street.



Treialon mapio poblogaeth Miscanthus ym Mhenrhyn-coch ar fferm Llwyngronw - tynnwyd y llun yn Awst 2011

## Rhedwyr brwd



Dyma griw o Benrhyn-coch fu'n rhedeg yn Race for Life dydd Sul 13 Mai. Rhes gefn: Meganne Tooze, Sioned Martin, Tracy Exley, Katy Nash a Lynwen Jenkins; rhes flaen: Elisa Martin, Sioned Exley, Arwen Exley, Sian, Seren a Gwennan Jenkins. Gweler hefyd t. 20

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 350 | Mai 2012

Ariennir gan Lywodraeth Cymru

## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEHEFIN 14 a MEHEFIN 15 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MEHEFIN 28

**MAI 13-19** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 17** Nos Iau Agoriad swyddogol Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn yng nghwmni Yr Archdderwydd, Jim Parc Nest am 6.30.

**MAI 18** Nos Wener Stomp yn Llety Ceiro, gydag Arwel Roberts (Pod) yn Stompfeistr. Noson o hwyl – croeso cynnes i bawb am 7.30.

**MAI 26** Mai Nos Sadwrn Barbeciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 6 pm - 8.30 pm

**MAI 27** Dydd Sul Taith dractorau yn cychwyn a gorffen yn Llety Ceiro, Llandre; gadael am 11.00. Cysyllter â Glyn Davies (07703 529 656) am fwy o fanylion. Trefnir gan Gymdeithas Aredig Ceredigion

**MEHEFIN 3** Dydd Sul Sioe Arddwriaethol Parc Hamdden Glan-y-môr, Clarach ym Mar y Traeth (Beach Bar) ar y Parc Manylion gan yr ysgrifennydd Modlen Osborne-Jones
Ffôn 820 759
modlen.osbournejones@sunbourne.com

**MEHEFIN 4-9** Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Eryri

**MEHEFIN 9** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth

**MEHEFIN 9** Nos Sadwrn Noson o ganu gwlad gyda John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc, Aberystwyth o 8.00-11.30. Tocynnau: £10 ar gael o'r Gwesty. Elw i Apêl Nyrs Ceredigion, Sefydliad Prydeinig y Galon

**MEHEFIN 16** Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i Flaenau Gwent gyda Frank Olding. Enwau i Ceris Gruffudd (828 017) Rhoshelyg@btinternet.com

**MEHEFIN 20** Dydd Mercher Taith Cymdeithas Gymraeg y Borth - cysyllter â Llinos Evans 01970 871 615 llinos@dolwerdd.fsworld.co.uk am fanylion

**MEHEFIN 20** Dydd Mercher Carwyn Tywyn yn fyw yn y Gen - yn Drwm, LLGC rhwng 13.15-14.15 Cyngerdd amser cinio

**MEHEFIN 29** Nos Wener Noson Caws, Gwin a Chân yn Eglwys Elerch, Bont-goch gyda Chôr Meibion Dyfi, Plant Ysgol Penrhyn-coch a Phedwarawd Llinynnol Taliesin am 7.30. Mynediad: £6.00

## Pencampwriaethau Aredig

MEDI 21-22 Dyddiau Sadwrn a Sul Pencampwriaethau Aredig y Pum Gwlad a Chymru fydd yn cael eu cynnal eleni yn y Morfa Mawr, Llan-non. Bydd y pencampwriaethau yn dychwelyd i Geredigion ar ôl 12 mlynedd. Am fanylion cysyllter â Mags Jones 01239 851 451 / 07813 533917 neu Phyllis Harries 01974 202 308

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Y BBC yn dychwelyd i Ynys-hir

Bydd y cyfresi bywyd gwyllt poblogaidd 'Springwatch' a 'Springwatch unsprung' yn darlledu'n fyw eleni eto o Warchodfa Natur yr RSPB yn Ynys-hir. Darlledir y rhaglen gyntaf ar BB2 nos Lun 28 o Fai gan barhau am dair wythnos.

### Cyflwyniad i waith Comisiynydd y Gymraeg

Daeth copi o gyhoeddiad cyntaf Comisiynydd y Gymraeg i law, sef *Cyflwyniad i waith Comisiynydd y Gymraeg.* Cyflwyniad byr, dwyieithog yw hwn i gyfnod cynnar gweithredu'r strwythurau newydd wrth i bwerau statudol Comisiynydd y Gymraeg ddod i rym. Os hoffech weld copi, plis cysylltwch ag ysgrifennydd y Tincer.

### Cronfa Eleri 2011

Dyma'r rhai gafodd arian o Gronfa Eleri 2011

£500.00 i Gwmni Cymunedol Clettwr yn gefnogaeth tuag at sefydlu'r fenter; £500.00 i Gylch Meithrin Rhydypennau i gwblhau gwaith ar ardal chwarae y tu allan; £2,000.00 tuag at boeler Ysgoldy Bethlehem, Llandre; £5,533.00 tuag at ddatblygu Canolfan Gymunedol Eglwys StPedr Bont-goch; £5,500.00 tuag at Gwrt Tenis Bow St.; £750.00 i Gylch Meithrin Tal-y-bont tuag at adeilad pren. Cyfanswm eleni o £14,783.00. Ceir manylion am y Gronfa o'r wefan http://www.ynniamgen.com.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2012
**£25** (Rhif 157) Gordon Jones, Y Wern, Bow Street
**£15** (Rhif 88) Beti Daniel, Glynrheidol, Cwmrheidol
**£10** (Rhif 20) Alwen Fanning, 69 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o Gyngor Melindwr yn Neuadd Capel Bangor, Nos Iau, Ebrill 19.
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.
**Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler**
http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

# 20 Mlynedd 'Nôl



## Gwasanaeth i'r Bad Achub

Bu achlysur arbennig yn y Borth nos Wener, Ebrill 3ydd, pan anrhydeddwyd Mr Aran Morris, Bel-Air, am ei wasanaeth am bum mlynedd ar hugain fel Ysgrifennydd Anrhydeddus yr RNLI yn y Borth. Roedd y Neuadd Goffa wedi ei haddurno'n chwaethus, a chafwyd swper ysgafn ardderchog wedi ei baratoi gan Mrs Jill Boot, Gwesty'r "Railway".

Daeth cynrychiolwyr o Bwyllgor yr RNLI, Urdd y Gwragedd, cyn-aelodau ac aelodau presennol o griw y Bad Achub, a llawer o ffrindiau o bell ac agos, ynghyd i ymuno yn y dathlu.

Anrhegwyd Aran â "Radio Scanner" gan y Llywydd Mr Paul Frost, ac â llun ohono gan y cadeirydd Mr Glan John. Derbyniodd lythyr o ddiolch wedi ei fframio o'r Pencadlys yn Poole, Dorset gan Arolygwr Adran y Bad Achub, Mr Jeff Mankertz, a chyflwynodd Miss Muriel Kind, Llywydd Urdd y Gwragedd, fasged o flodau i Mrs Eileen Morris.

Talwyd teyrnged i Mr Aran Morris am ei wasanaeth hir a diflino i'r RNLI yn y Borth gan gynrychiolwyr o nifer o gymdeithasau lleol a chenedlaethol.

Mwynhawyd noson hyfryd yn cymdeithasu, a gwnaeth miwsig Mr Twiddy gyfraniad mawr i'r hwyl o ddathlu'r noson nodedig yma.

(O'r *Tincer* Mai 1992)

## Prifysgol Aberystwyth yn agor Canolfan Genedlaethol Ffenomeg Blanhigion gwerth £6.8m

Dydd Llun 14 Mai, agorwyd Canolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion newydd, sy'n cynnwys y tŷ gwydr ymchwil mwyaf datblygedig yn y DU, yn swyddogol gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Wedi'i leoli ar gampws Gogerddan y Brifysgol, fe'i hagorwyd gan Gadeirydd y BBSRC, yr Athro Syr Tom Blundell FRS.

Mae'r Ganolfan newydd (<http://www.phenomics.org.uk/>) yn adnodd cenedlaethol gyda chefnogaeth y Cyngor Ymchwil i Fiotechnoleg ac Ymchwil Fiolegol (Biotechnolgy and Biological Sciences Research Council - BBSRC) ac fe'i datblygwyd am gost o £6.8m.

Bydd yr ymchwil a gynhelir yn y ganolfan genedlaethol newydd hon yn gymorth i ddatblygu amrywiadau newydd ar blanhigion a chnydau er mwyn dygymod â sialensiau newid hinsawdd byd eang, diogelwch bwyd, a chanfod deunyddiau amgen i gymryd lle cynhyrchion wedi'u gwneud o olew.





# BOW STREET

*Suliau Mai - Mehefin*
Garn 10 a 5
www.capelygarn.org

*Mai*
20 Bugail
27 Elfed ap Nefydd Roberts

*Mehefin*
3 10 Noddfa 5 Raymond Davies
10 Edwin Hughes
17 Bugail
24John Tudno Williams

Noddfa

3 10.00 Gweinidog.
10 10.00 Trefn Lleol
17 10.00 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn Soar, Llanbadarn.
24 5.00 Y Parch. Ifan Mason Davies. Cymundeb.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Gruff a Joanna, Harri a Daniel, 45 Maes Afallen ar farwolaeth mam-gu Joanna - Gwyneira James, Erw Goch, Aberystwyth.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Rhun Gwynedd a Magda ap Robert, Caerdydd ar enedigaeth merch fach - Mari - ar Fai 2il- chwaer fach i Ioan. Wyres arall i Felicity Roberts, Bryn Castell. Clywyd portread o Rhun hefyd ar y rhaglen Bwrw golwg ar Radio Cymru fore Sul 6 Mai yn ei ddilyn fel yr oedd yn cychwyn ar bennod newydd yn hyfforddi i fod yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae ei flwyddyn gyntaf yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf yn dirwyn i ben.



Ar 31ain Mawrth, dathlwyd priodas Esyllt Mair Dafydd (merch Elgan a Menna Davies, Bow St) a Benjamin John Sears (mab Mike a Debbie Sears, Poole, Dorset). Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Soar y Mynydd a mwynheuwyd brecwast priodas yn Neuadd Goffa Tregaron. Hoffai'r ddau ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau a'u rhoddion hael. Dymuniadau gorau iddynt hwythau.

**Pen blwydd hapus**

Dymuniadau gorau i Elgan Davies, Maes Afallen, ar ddathlu pen blwydd arbennig ar Fai 9fed.

**Gwellhad Buan**

Yr ydym yn anfon ein cofion cywiraf a`n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Jane Davies, Y Frenni, 12 Maes Ceiro, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

**CD**

Mae sengl gyntaf Race Horses ar gael am ddim i'w lawrlwytho o Facebook https://www.facebook.com/Racehorsesmusic Fe'i clywyd y dyddiau diwethaf ar Radio 1, Radio 6 a Radio Cymru Bydd eu halbym Furniture allan ddiwedd yr haf/ dechrau Medi.

# LLANDRE

**Treftadaeth Llandre**

Mai 17 - Lansiad y Llwybr Llên gan yr Archdderwydd T J Jones

Dyma'r penillion a fydd i'w gweld ar y Llwybr:
1 Llanfihangel Dan Eira *Huw Meirion Edwards*
2 Cwm Eleri *Greg Hill*
3 Llanfihangel Genau'r Glyn *Idwal Jones*
4 Llanfihangel Genau'r Glyn *J.J. Williams*
5 Y Tincer Tlawd/The White Lanes of Summer *Tom Macdonald*
6 Cantre'r Gwaelod *Dewi Morgan*
7 Golden Wedding *Tom Macdonald*
8 Gwallter *Huw Ceiriog*
9 Clawdd *Vernon Jones*
10 Ffynnon *Geraint Williams*
11 Yr Alwad *Philip Thomas*
12 Megan Alys *Dafydd Huws*
13 Ysgol Rhydypennau *Ifor Davies*
14 Potato Peeler *Annette Williamson*
15 Llenwi'r Car *Lleucu Roberts*
16 The Vale Of Llanfihangel Genau'r Glyn *Rev. Isaac Williams*

**Merched y Wawr**

**Llanfihangel Genau'r-glyn**
Yn ein cyfarfod mis Ebrill cawsom gwmni Wynne Melville Jones, Y Berllan, a ddaeth a rhai o'i beintiadau i'w dangos. Cawsom hanes ei gefndir a sut fu iddo gychwyn arlunio yn ysgol Tregaron ac yna yng Ngholeg y Drindod. Ymysg y lluniau oedd un o dŷ Polly Oliver yn y pentref a nifer o adeiladau lleol eraill. Mae arddangosfa o luniau Wynne i'w gweld yn Y Morlan, Aberystwyth hyd at Fai 31ain.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu Anne Raw Rees, Brynbwl , a fu farw ar Ebrill 30ain.
Hefyd cydymdeimlwn â Gladys James, Brynllys, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yng Nghroesoswallt mis diwethaf.

**Pen blwydd**

Pen blwydd hapus iawn i Mary Thomas, Dolgelynen, ar ei phen blwydd arbennig.

**Ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau i Efa Mared Edwards ar ennill un o ysgoloriaethau Coleg Cenedlaethol Cymru ar gyfer astudio yn y brifysgol ym mis Medi.

**Taith dractorau**

Dydd Sul Mai 27 cynhelir Taith dractorau yn cychwyn a gorffen yn Llety Ceiro, Llandre; gadael am 11.00. Cysyllter â Glyn Davies (07703 529 656) am fwy o fanylion. Trefnir gan Gymdeithas Aredig Ceredigion i godi arian i'r Pencampwriaeth Aredig.



Rhun Gwynedd ar teulu

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Ebrill 2012, yn Neuadd Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair. Roedd chwe aelod arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Edwina Davies, Kari Walker, Mel Evans a'r Cyng. Dai Suter.

Cadarnhawyd fod y gwaith cynnal a chadw ar y palmant gyferbyn â'r Eglwys wedi ei gwblhau. Hefyd roedd sedd newydd wedi'i gosod yn y caban bysiau ger Post y Penrhyn. Roedd Mel Evans wedi cadarnhau fod gyrwyr ei gwmni wedi derbyn llythyr yn eu hatgoffa i fod yn ofalus i beidio â goryrru wrth fynd â'r bysiau drwy bentref Penrhyn-coch.

Roedd Dafydd Sheppard wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llwyncelyn yn ddiweddar, pan oedd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Hywel Dda wedi bod yn egluro beth oedd eu bwriadau ar gyfer ad-drefnu darpariaethau iechyd yng Ngheredigion. Bu'n gyfarfod eithaf tanllyd, gan fod llawer yn pryderu am effaith yr ad-drefnu ar wasanaethau iechyd yn y sir.

Roedd Adran Gynllunio Cyngor Ceredigion wedi cael cais am gael estyniad o ddwy flynedd cyn gorfod cyflwyno rhai materion perthynol i'r caniatâd cynllunio a roddwyd yn 2009 ar y cae tu draw i Gapel Horeb. Roedd nifer o drigolion lleol wedi gwrthwynebu'r cais am estyniad, a phenderfynodd y Cyngor Cymuned gefnogi eu gwrthwynebiad.

Roedd y dyddiad enwebu ar gyfer tymor nesaf y Cyngor Cymuned wedi bod ddechrau Ebrill. Roedd Mervyn Hughes a Dafydd Sheppard wedi penderfynu peidio ag ailsefyll am y Cyngor. Diolchwyd i'r ddau am eu gwasanaeth i'r Cyngor ac i'r ardal a dymunwyd yn dda iddynt.



**Rhes gefn, o'r chwith:**
Owain Ifans, Jamie Whitney, Amlyn Ifans (Hyfforddwr), Griff Lewis, Dylan Davies

**Rhes flaen o'r chwith:**
Rhodri Jones, Seth Lawton, Mari Morgan, William Jones

### Bow Street Ieuenctid

Roedd yna ffeinal yn Wembley rhwng Lerpwl a Chelsea dydd Sadwrn, Mai 5ed, ond gwelwyd gêm bwysicach fyth ar Goedlan y Parc yn Aberystwyth - rownd derfynol Cwpan Cynghrair Ieuenctid Aberystwyth a'r Cylch. Yn cystadlu am y tlws (dan 8 oed) roedd Bow Street Ieuenctid ac Ystwyth Gators A, Llanilar. Gwelwyd cystadlu brŵd yn ystod yr hanner cyntaf gyda Bow Street Ieuenctid yn cael y gorau o'r chwarae, ac aethant ar y blaen yn haeddiannol wrth i Seth Lawton ganfod cefn y rhwyd. Yn dilyn cyfleuon agos i'r ddau dîm, cafwyd ail gôl i'r Piod ifanc cyn yr hanner wrth i Jamie Whitney sgorio ar ddiwedd symudiad celfydd, gan roi Bow Street ar y blaen o ddwy gôl i ddim. Yn yr ail hanner cryfhau wnaeth Ystwyth Gators a chynyddu gwnaeth ymdrechion yr Ieuenctid, wrth i Griff Lewis, Dylan Davies ac Owain Ifans weithio'n galed i ddal eu tir, a llwyddo i gynnig ambell wrth-ymosodiad. Gwelwyd y cyfleuon yn parhau y ddau ben o'r cae, a chafwyd taclo grymus gan William Jones a Mari Morgan wrth iddynt amddiffyn gôl Bow Street. Er gwaethaf eu hymdrechion, sgoriodd Ystwyth Gators i gau'r bwlch a chafwyd diweddglo hynod gyffrous i'r gêm. Ond safodd Rhodri Jones yn gadarn yng ngôl Bow Street i wneud yn siwr fod dim arall yn croesi ei linell, a chadw'r sgôr yn 2 -1 gan sicrhau llwyddiant i dîm Bow Street Ieuenctid. Da iawn chi!

TACSI EDDIE
TACSI AR GYFER POB ACHLYSUR, A CHAR ADDAS O SAFON UCHEL I'R ANABL. BYSUS MINI AR GAEL HEFYD
FFONIWCH:
CONNIE AR 828 642
TINA AR 07790 961 226




ytincer@googlemail.com

# PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

### Dathliad Pen blwydd

Pob dymuniad da i Shân Williams, Brynrheidol. Clywsom ar raglen Geraint Lloyd ei bod yn dathlu pen blwydd arbennig. Ymlaen nawr Shân i'r degawd nesaf!
Hefyd gwellhad buan i'w mam, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, wrth fynd i'r wasg.

### Ysbyty

Mae Mrs Enid Vaughan yn dal yn yr ysbyty, ond yn gwella, bob yn dipyn. Daliwch ati, Mrs Vaughan.

### Yr Ysgol Sul

Llawenhawn fod gennym bump o blant ychwanegol yn yr ysgol Sul erbyn hyn - sef Rebecca, Laura, Alan, Efan a Cortney. Croeso mawr iddynt.

Hyfryd yw gweld plant a'r awydd i fynychu ysgol Sul, wedi bod yn aros i "Hwyl Hwyr" ar ôl ysgol bob yn ail Nos Fawrth, gyda Mrs Ann Mason Davies. Diolch iddi am ei hamser.

### Pen blwydd

Bydd Arnold Evans, Cwmwythig, hefyd yn dathlu pen blwydd arbennig, wedi cyrraedd oed yr addewid, cyn y dyddiad cyhoeddi. Gobeithio iddo fwynhau ei ben blwydd, a bydd eto lawer i ddod. Dymuniadau gorau Arnold.

### Ymddeoliad

Mae Miss Ann Vaughan, Gwarddol, wedi ymddeol am beth amser bellach,ond ar ddechrau y mis cyrhaeddodd ei phen blwydd arbennig. Bu y dathlu ar Fai 5ed, yng nghwmni ei brodyr a'u teuluoedd, heb anghofio ei nithoedd a'i neiaint, sydd yn meddwl y byd o Anti Ann. Cofia am y "bus pass" Ann.

### Cydymdeimlad

Mae Mrs Margaret Dryburgh, Murmur y Coed, a Mr John Howells, Pencoed, wedi colli dwy gyfnither yn ddiweddar. Un ohonynt o Sanclêr, Caerfyrddin, a'r llall - Mrs Nansy Edwards, Pontarfynach. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r ddau deulu.

### Y Maes (Bangor )

Fel y gwyddoch, mae Y Maes wedi ailagor ers peth amser bellach, o dan berchnogion newydd, sef Andy a Heather fel y'i gelwir. Ers y 6ed o Fai maent wedi dechrau gweini ciniawe Dydd Sul. Croeso i bawb.

### Efeilliaid

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Elystan a Catrin Evans, Ardwyn, ar gyrrhaeddiad diogel eu hefeilliaid ddiwedd Ebrill, (Dafydd a Dyfrig) - brodyr bach i Owen ac Ania. Cofion cynnes iddynt, a phob dymuniad da.



**Dafydd, Owen, Dyfrig ac Ania Evans.**

# MADOG

### Suliau
### Mai - Mehefin

Madog 2.00
*Mai*
20 Bugail
27 Elfed ap Nefydd Roberts

*Mehefin*
3 Bugail
10 Edwin Hughes
17 Bugail
24 John Tudno Williams

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Elwyna Davies, Tyncwm, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Bron-glais. Brysiwch wella Elwyna.

### Diolch

Dymuna Arthur Hughes, Lluest Fach, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben blwydd arbennig yn ddiweddar.



**Sian a Megan Evans fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch y mis diwethaf gyda'u tlysau**

# DOLAU

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â'r Athro Gruffydd Aled ac Eimear Williams, Brynafon a'r teulu ar farwolaeth brawd yng nghyfraith yr Athro yng Nghaernarfon.

# GOGINAN

### Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Lucia Knight, Queen Street, ar Ebrill 16. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Derek ei gŵr, Angie, Deborah, Richard a'u teuluoedd.

### Ymddeoliad

Dynuniadau gorau i Ann Bennett, Arfon House, ar ei hymddeoliad o Ysbyty Bron-glais. Roedd Ann wedi gweithio yno fel cogydd ers pedwar deg dwy o flynyddoedd. Mae Ann yn siwr o'i gweld yn wahanol gyda gymaint o amser hamdden.

### Busnes Newydd

Pob lwc i Lewis a Robbie Johnston. Druid, ar eu menter newydd 'Ystwyth Ales.' Gwerthu a dosbarthu cwrw dros Orllewin Cymru yw'r busnes. Braf yw gweld y bobl ifanc yn mentro.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Diolch

Dymuna Ann, Gerwyn a Rhian a'r teulu, Hywelfan, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ddiweddar ar golli gŵr a thad annwyl, sef Hywel Ellis. Gwerthfawrogant gyfeillgarwch pawb yn fawr iawn. Mae'r gronfa er cof am Hywel a fydd yn cael ei rannu rhwng Ward Meurig a "Mid- Wales colo-rectal cancer fund" bellach wedi croesi £2,000. Diolch yn fawr.

### Llongyfarchiadau

Longyfarchiadau i Ian a Ruth Jones, Tair Llyn, ar enedigaeth ŵyr, mab bach i Hugh a Lizzie a brawd i Fredi.

Hefyd mae Sylvia Smith, Tŷ Melyn, wedi cael wyres, merch i Gwenno a Dai a chwaer fach i Celyn. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu.

Braf yw dweud fod Aneurin Morgan, Y Byngalo, yn gwella yn dda ar ôl ei lawdriniaeth hernia yn ddiweddar.

Hoffwn hefyd longyfarch Tomi Vaughan,



Fferm Pall Mall Tywyn, sef ŵyr Aneurin a Gwen Morgan ar ei lwyddiant yn ennill cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn yn yr adran nofis am chwarae y Trwmped. Da iawn ti Tomi.

### Urdd y Benywod

Daeth ein tymor i ben eleni eto gyda noson allan. Adeiladau y Cynulliad oedd ein cyrchfan eleni ac ar ol cael hanes adeiladu y lle a edrych oamgylch aethom yn ein blaen i fwynhau bwffe yng Ngwesty Llety Parc. Gorffennwyd y noson gyda ein Cyfarfod Blynyddol a diolchodd Jenny Hall i bawb am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

### Merched y Wawr

Nos Fawrth Mai 1af aethom i Arddangosfa y Gweilch yng Nglandyfi. Er gwaethaf y tywydd cawsom noson ddiddorol iawn yn gwylio y Gwalch yn eistedd ar dri o wyau gan obeithio y byddant wedi deor erbyn diwedd y mis. Mae gofal a amynedd y gofalwyr yma yn ddiddiwedd. Diolchodd Liz Collison i'r gofalwyr am noson ddiddorol a addysgiadol iawn. Aethom yn ein blaenau i'r Llew Du yn Nerwen-las a chawsom bryd o fwyd ysgafn i orffen y noson.

# Cerddi mewn coedwig yn Llanfihangel Genau'r-glyn

**Archdderwydd Cymru yn agor llwybr sy'n ddathliad o draddodiad sy'n mynd yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif ac sy'n fyw yn pentref heddiw**

Does dim dwywaith mai Llanfihangel Genau'r-glyn yw un o'r enwau harddaf ar unrhyw bentref yng Nghymru.

Yn ôl y sôn, dyfodiad y rheilffordd o'r Amwythig i Aberystwyth a roddodd yr enw cyfarwydd heddiw ar bentref Llandre, ond bellach mae defnydd cynyddol o'r enw tlws Llanfihangel Genau'r-glyn i'w weld a'i glywed yn y pentref ac wedi ymgyrchu dros ddeng mlynedd ar ddiwedd y nawdegau rhoddwyd yr enw gwreiddiol ar yr arwydd ffordd ar gyrion y pentref.

Nawr, mae'r pentref yn cael ei roi ar y map yn sgil Llwybr o gerddi sydd wedi ei greu mewn coedwig ac sy'n ddathliad parhaol o draddodiad yn y fro sy'n mynd yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif ac sydd hefyd yn fyw iawn yn y pentref heddiw.

Mae'n hysbys bod Dafydd ap Gwilym, bardd enwocaf Cymru ac un a gydnabyddwyd fel bardd mawr yn Ewrop yn y Canol Oesoedd, wedi crwydro llwybrau'r fro hon.

Mae Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn yn cael ei agor yn swyddogol yr wythos hon (nos Iau 17 Mai am 6.30) gan Archdderwydd Cymru Jim Parc Nest ac mae'r pymtheg o gerddi sydd ar y llwybr naill ai yn waith sydd wedi cael ei ysbrydoli gan Lanfihangel Genau'r-glyn neu yn gynnyrch beirdd lleol.

Wedi pum mlynedd o ymchwilio, cynllunio, codi arian ac adeiladu bydd agoriad swyddogol Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn yn cychwyn ar benwythnos o ddathlu na welwyd mo'i debyg yn y pentref o'r blaen.

Yn dilyn yr agoriad bydd plant y fro a nifer o feirdd a doniau lleol eraill yn cyflwyno Noson o Farddoniaeth a Cherddoriaeth yn eglwys Llanfihangel.

Un o'r eitemau yn y noson arbennig hon fydd cyfle unigryw i glywed yr Arglwydd Elystan-Morgan yn darllen detholiad o Cantre'r Gwaelod, awdl fuddugol ei dad Dewi Morgan, a enillodd iddo gadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Pwllheli 1925 ac sy'n un o'r cerddi ar y Llwybr Llên. Trefnir te a choffi ym Methlehem i gloi'r noson.

Bydd gweithgareddau eraill i gefnogi'r Agoriad yn cynnwys Stomp yn Llety Ceiro am 7.30 ar nos Wener, ac ar ddydd Sadwrn 19 Mai bydd Enid Gruffudd - Storïwr i blant yn y goedwig yn y bore am 11.00, taith gerdded deuluol ar y Llwybr yn cychwyn o Fethlehem am 3.00 ac am 5.30 bydd Barbeciw yn y Parc - dewch a'ch diodydd eich hun.

Yn ôl Wynne Melville Jones sydd wedi arwain ar y cynllun, mae'r Llwybr yn chwarter milltir o hyd ar y llechwedd yn y goedwig sy'n ffinio gyda hen fynwent yr eglwys.

"Mae'n adnodd unigryw ac mae'n gyfle arbennig i fwynhau awen ein beirdd yn naws arbennig y goedwig

"Mae'r Llwybr hefyd yn glod i bobl y pentref sydd wedi cydweithio dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n dangos beth ellir ei gyflawni gan gymuned fechan mewn ardal wledig er lles y trigolion ac ymwelwyr.



Llun: Phil Jones

"Rydym yn rhagweld y bydd unigolion a grwpiau bach o blant ysgol, myfyrwyr a chymdeithasau lleol yn ymweld â'r Llwybt yn ystod y dyfodol", medd Wynne.

Trefnwyd y gwaith o adeiladu'r Llwybr Llên gan Dreftadaeth Llandre a chyflawnwyd y gwaith gan wirfoddolwyr, nifer ohonynt yn cael eu hadfer o gaethiwed a dibyniaeth ar gyffuriau ac aed ati i godi'r £10,000. angenrheidiol i gyflawni'r gwaith. Y prif noddwyr yw Cronfa Eleri (cronfa gymunedol fferm wynt Mynydd Gorddu), Cyngor Cymuned Genau'r-glyn, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Amgylchedd Cymru a Coedtiroedd Gwell iGymru.

# PENRHYN-COCH



Gweithdy Pasg Eglwys Sant Ioan yn Neuadd yr Eglwys Dydd Sadwrn y Pasg.

**Suliau Mai - Mehefin**
**Horeb**
*Mai*
20 2.30 Oedfa am y Samariaid yng nghwmni Cerys Humphreys
27 10.30 Oedfa i ddathlu'r Pentecost ar y cyd gyda Bethel ac Eglwys St Paul ym Methel. Gweinidog

*Mehefin*
3 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
10 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
17 2.30 Oedfa bregeth Sion Meredith
24 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

**Salem**
27 Mai (Sulgwyn)
10 Mehefin 2pm
Y Parchedig Richard H Lewis, Cymundeb
17 Mehefin 10am
Cyfarfod undebol yn Soar, Llanbadarn Fawr, Y Parchg Richard H Lewis Cymundeb

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 13 a 27 Mehefin. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Lowri a Huw Powell a'r teulu, Maesyrefail, ar farwolaeth mam-gu Lowri - Mrs Myfi Jones yn Aberystwyth ar Mai 6ed.

**Diolch**

Hoffai John a Kathryn Livingstone ddiolch yn fawr iawn i gyfeillion a chyn blwyfolion am eu rhoddion hael a'u dymuniadau da ar ymddeoliad John.
Yn ogystal, hoffai Kathryn ddiolch i'r holl ffrindiau hynny sydd wedi mynegi sut gydymdeimlad a charedigrwydd yn dilyn marwolaeth ei hannwyl fam yn ddiweddar.

**Eglwys Sant Ioan Bedydd**

Ar ddydd Sul, Ebrill 22ain, yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Hannah Louise, merch Jenny a Richard Collins, wyres i Norma a Glyn Collins, Ger-y-llan, a gor-wyres i Mrs V Mort o Dreforus sydd yn ymwelydd cyson â Sant Ioan. Gweinyddwyd gan y Parchg Ronald Williams. Mae Hannah a'i theulu erbyn hyn nôl yn eu cartref yn Sydney, Awstralia. Ac yna Bore Sul, 6ed o Fai, bedyddiwyd eto gan y Parchg Ronald Williams, Gwenno Mair, merch Caryl ac Aled Hughes, Hafodau, Goginan. Wyres gyntaf i Eirwen a John Hughes, Pen-cwm. Roedd Mam-gu a Tad-cu arall Gwenno, sef Doreen a John Lewis, Ffôsdwn, Dihewyd, yn dathlu eu priodas ruddem ar yr un dyddiad. Llongyfarchiadau i'r holl deulu.

## Gair gan Dai Suter

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a'm cefnogodd yn etholiad y Cyngor Sir. Cefais lawer o groeso wrth fynd o gwmpas cartrefi'r ardal yn canfasio, fel ag y troeon o'r blaen. Diolch hefyd i etholwyr Trefeurig am roi imi'r cyfle i gynrychioli'r ardal am wyth mlynedd ar Gyngor Ceredigion. Roeddwn yn ei hystyried yn fraint, ac fe ymdrechais i wneud fy ngorau dros Drefeurig yn ystod y cyfnod hwn. Mwynheais y gwaith yn fawr iawn, ac rwy'n gobeithio parhau i gymryd rhan ym mywyd yr ardal. Pob dymuniad da i'm holynydd.

**Pen blwydd**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Laura Bolt, Ger-y-llan, ar ben blwydd arbennig iawn ar 30 Mai, oddi wrth dy deulu a ffrindiau.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Mr a Mrs Dewi Edwards, 21 Glanceulan ar golli ei chwaer yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt hefyd ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf.

**Er cof**

Mae swyddogion ac aelodau Horeb yn ddiolchgar i Nia, Emyr a'r teuluoedd am y swm o £345 - sef cyfraniadau a dderbyniwyd er cof am y ddiweddar Menna Jenkins, Maesaleg.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**

Nos Iau 12fed o Ebrill, hyfryd oedd cael bod yn ôl yn Neuadd y Penrhyn yn ein cyfarfod cyntaf yno ar ôl yr holl waith sydd wedi cael ei wneud i adnewyddu y Neuadd yn ddiweddar. Er hynny mae ein diolch yn fawr fel cangen am gael defnyddio Neuadd yr Eglwys am gyfnod. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd a thrafodwyd y busnes arferol. Yna fe groesawodd Judith Morris ein Llywydd ein gŵr gwadd, sef Ceris Gruffudd, ac yna fe aeth ef â ni ar deithiau anhygoel i'r Ariannin ac Uruguay drwy dangos lluniau ar y sgrin ac ar yr un pryd adrodd yr holl hanes am bobl yr oedd wedi cyfarfod ar ei deithiau i Batagonia a De America. Chwaraewyd clipiau fideo o blant ac ieuenctid yn cystadlu mewn eisteddfodau. Noson ddiddorol dros ben a phawb wedi mwynhau ac yn gartrefol iawn yng nghwmni Ceris sydd bob amser yn rhoi o'i orau ymhob peth mae'n ei wneud. Diolchwyd yn fawr iawn iddo am noson wych, yna fe dynnwyd y raffl fisol a chael cwpanaid a sgwrs hamddenol i ddiweddu'r noson.

**Canlyniad Erthygl i Gylchgrawn - Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2012**

**Tŷ ni yn y bore**

Welodd neb le run fath â thŷ ni yn y bore. Y gweiddi sydd yn mynd ymlaen i geisio codi y plant acw. Er bod yna gloc iau larwm a radio wrth ymyl gwely pob un, a phan ddaw yr amser i godi, bydd pob un yn dweud yn ei feddwl bach ei hun, "Pum munud fach eto ac mi godaf i" ond cyn eiliad yn taflu dillad y gwely i ffwrdd ac yn codi yn sydyn. Pob un yn y tŷ â'r un syniad, ac yna pawb am fynd i'r ystafell ymolchi yr un pryd. Dyna lle mae hylabalw mawr wedyn a llais mam yn dal i weiddi lawr y grisiau. O'r diwedd pawb yn barod i fynd lawr y grisiau,

bob yn un ac un, a rhai ohonynt yn hanner cysgu. Y brecwast yn hen barod a llais mam yr un mor uchel yn ceisio cael trefn ar bawb, hyd yn oed ei gŵr, a cheisio eu cael i fynd i'r gwaith ac i'r ysgol. Dau ohonynt i'w gwaith a'r tri arall i'r ysgol. Holi y plant oedd eu gwaith cartref yn eu bag ysgol, un wedi ei anghofio, yna yn ôl i'w ystafell wely yn ei hyd i'w mofyn. Un arall wedi anghofio glanhau ei ddannedd - hwnnw ar ras i'r ystafell ymolchi. Pump ohonynt o'r diwedd yn barod i fynd drwy'r drws naill i'r car neu i ddala bws. A hynny y funud ola wrth gwrs. Fel hyn y mae bob bore yn tŷ ni. Mae mam yn falch o'u gweld yn mynd er mwyn iddi gael tipyn o seibiant. Fydd hi'r un fath bore fory eto ond er hynny, mae mam yn dal i edrych ymlaen i'w gweld i gyd yn dod adref ar ddiwedd pob dydd!.
**Mairwen Jones**

Llongyfarchiadau i Mairwen hefyd am gael pennill o'i heiddo wedi ei ddewis ar gyfer un o gardiau Nadolig Merched y Wawr.

- Erthygl ddifyr iawn.
- Buasai pob darllenydd yn gallu uniaethu gyda'r darluniau a grëwyd yma!
- Go debyg ydi hii yn nhŷ pawb yn y bore ynte!
- Mae'r darluniau'n fyw a gwir!!
- Erthygl addas iawn i gylchgrawn – gyda iaith a safod 'dweud' naturiol. Llongyfarchiadau!

**Dorothy Jones**

### Dangos ffilm

Mae ffilm yn seiliedig ar lyfr yr awdur Niall Griffiths, *Garth Kelly + Victor* (Jonathan Cape, 2002) yn ymddangos yn Cannes 16 – 27 Mai. KELLY + VICTOR: Hot Property Films; Cynhyrchydd: Janine Marmot; Actorion: Antonia Campbell-Hughes a Julian Morris. Am fwy o fanylion gweler http://www.festival-cannes.fr/en/festival.html

## TREFEURIG

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Huw Jenkins, Fferm-y-Darren, a dreuliodd ychydig amser yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### O Blas Gogerddan i Fae Caerdydd

Ar 19 Ebrill traddododd Vaughan Roderick ddarlith flynyddol Morlan Aberystwyth - O Blas Gogerddan i Fae Caerdydd. Y rheswm am y teitl yw i'w deulu fyw yn Salem,Coedgruffydd ac i Thomas Roderick , yn ôl hanes y teulu, weithio fel cipar ar stad Gogerddan cyn symud - fel nifer o rai eraill ar y pryd - i Gwm Rhondda. Ceir yn y ddarlith frasolwg o hanes gwleidyddol Cymru o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw. Mae'n gofyn ydy'r system bleidiol sy'n bodoli yng Nghymru heddiw yn adlewyrchu'r rhaniadau yn y farn gyhoeddus.
Gellir darllen y ddarlith ar wefan Morlan.
http://www.morlan.org.uk/2012%20O%20Blas%20Gogerddan%20i%20Fae%20Caerdydd.pdf
Bydd cyfeithiad Saesneg yna cyn hir.

# 50 mlynedd efo BP!

Mae Mai 5 yn ddyddiad arbennig yng nghalendr Teulu y Jenkinsiaid Garej Tymawr, Penrhyn-coch. Ar y dyddiad yma ym 1962 y priododd Cyril P. Jenkins a Jane Evans o Langwyryfon a symud i fyw i Tymawr. Ym 1961 roedd y ddau wedi prynu Gorsaf Betrol Tymawr gan agor i fusnes ar ôl i'r safle gael ei throi o un petrol Fina i BP a Shell Mex. Ym 1975 adeiladwyd ail ganolfan - Gorsaf Betrol Rheidol ym Mhonterwyd a agorwyd ym 1976; roeddynt yn dathlu 35 mlynedd efo BP y llynedd.

Pan fu Cyril farw yn 2002 fe gymerodd ei blant Lynwen a Geraint y ddwy orsaf drosodd gan addunedu i gynnal y ddau fusnes yn y cymunedau oedd mor agos i galon eu tad.

Ym 2011 dathlwyd 50 mlynedd gyda BP - dyma orsaf hynaf y cwmni ym Mhrydain yn ogystal a'r leiaf.

Yn ôl Lynwen: Roedd dad wastad eisiau agor gorsaf betrol BP gan ei fod yn credu mai BP oedd y gorau! O edrych yn ôl ar ei hoffter o ralïo a cheir, mae'n rhaid fod cadw garej yn freuddwyd wedi ei gwireddu. Yr adeg honno, roedd popeth mor hamddenol - roedd y sialensau yn llai na heddiw ac nid oedd cymaint o reolau! Roedd mam a dad yn cefnogi digwyddiadau yn y gymuned ac roeddynt yn fawr eu parch yn y gymuned. Mae Geraint a minnau yn gobeithio y gallwn eu dilyn yn hyn.

Mae'r busnes ym Mhenrhyn-coch cymaint mwy heddiw - pum gwaith mwy na'r siop wreiddiol - a rydym yn llawer prysurach! Pan agorodd mam a dad y busnes gorsaf betrol roeddynt yn gwerthu tanwydd, olew a phethau gofal car. Heddiw mae Tymawr yn orsaf betrol gyda siop hwylus sy'n gwerthu popeth- gellwch brynu hyd yn oed blanhigion, dodrefn a chytiau i'r ardd - a hefyd *y Ddolen* a'r *Tincer*!

Mae'r ardal yn ffodus iawn o gael y cyfleusterau hyn yn y pentref - dymuniadau gorau i'r teulu am y 50 mlynedd nesaf!






**Teulu Garej Tymawr -** Cyril, Jane, Lynwen, Geraint a Carys (merch Mollie, chwaer Cyril)



**Teulu Tymawr, Penrhyncoch 2012 -** Jane, Lynwen, Ifor, Seren Wyn, Sian Fflur a Gwenan Hedd, Geraint, Carys ac Elis Wyn

# Etholiadau'r Cyngor Sir 2012



Bu pedair gornest yn ardal *Y Tincer* yn etholiadau'r Cyngor Sir, a gwelwyd tri o'r cynghorwyr blaenorol yn cadw eu seddau ac un sedd yn newid dwylo. Yn y Borth, cafwyd brwydr unwaith eto rhwng dau ymgeisydd annibynnol, sef Ray Quant a James Whitlock Davies. Ray Quant a enillodd ond roedd ei fwyafrif i lawr i 66 o gymharu â 103 yn 2008; fodd bynnag roedd ymgeisydd Ceidwadol yn sefyll y tro hwn ac fe enillodd ef 72 pleidlais. Yn Nhirmynach fe gynyddodd Paul Hinge ei bleidlais yn sylweddol o 434 y tro diwethaf i 601 y tro hwn, ond fe wnaeth Jaci Taylor dros Blaid Cymru ymdrech lew o ystyried mai ychydig cyn yr etholiad y mabwysiadwyd hi. Roedd hwn yn ganlyniad da i'r Democratiaid Rhyddfrydol ar noson anodd iddynt yng Ngheredigion. Fe lwyddodd Plaid Cymru i gipio dwy sedd oddi arnynt sef sedd Gogledd Aberystwyth (Mark Strong yn trechu Carl Williams) a sedd Llanarth (Bryan Davies yn trechu Eurfyl Evans), ac wrth gwrs roedd y ddau a drechwyd yn aelodau Cabinet. Ni chafodd y Democratiaid ddim lwc ym Melindwr. Llwyddodd Rhodri Davies (Plaid Cymru) i gadw'r sedd a enillodd yn 2008 gyda chynnydd sylweddol iawn yn ei bleidlais a'i fwyafrif ac yntau'n wynebu'r un gwrthwynebydd ag o'r blaen.

Yn Nhrefeurig y gwelwyd newid yn yr ardal hon, sef yr ymgeisydd annibynnol Dai Mason yn llwyddo i drechu Dai Suter (Plaid Cymru) a oedd yn aelod ers 2004. Roedd yr ymgeisydd annibynnol wedi ei eni a'i fagu yn yr ardal ac yn un a weithiodd am flynyddoedd yng Ngogerddan, felly roedd ei gysylltiadau lleol yn ddwfn ac eang. Mae'n bosib mai dyna a drodd y fantol, gyda sawl un o bleidleiswyr arferol y Blaid yn dewis cefnogi dyn lleol y tro hwn. Fe gollodd un arall o gynghorwyr y Blaid ei sedd i ymgeisydd annibynnol, sef Ian ap Dewi ym Mhenbryn yn ne'r sir. Hefyd fe enillodd yr annibynwyr ddwy sedd arall lle'r oedd yr aelodau Plaid Cymru blaenorol wedi ymddeol, sef Llanio a Llanwenog. Ond efallai mai canlyniad mwyaf trawiadol y noson oedd yr un yn Llandysul pan lwyddodd Peter Evans, Plaid Cymru, i drechu Keith Evans, Annibynnol, Arweinydd y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn. Beth bynnag yw plaid dyn, mae'n anodd peidio â chydymdeimlo â rhai sy'n colli seddi ar ôl blynyddoedd o wasanaeth.

Erbyn hyn fe wyddom fod Ellen ap Gwynn, aelod Ceulanamaesmawr (Plaid Cymru) wedi ei hethol yn arweinydd Cyngor Ceredigion. Bydd yn arwain clymblaid a fydd yn cynnwys Plaid Cymru (19 aelod), Grŵp Annibynnol (12 aelod), Llais Annibynnol (2 aelod, sef Dai Mason, Trefeurig a Dafydd Edwards, Llansantffraed) a Llafur (Hag Harris, Llambed). Y tu allan i'r glymblaid bydd y saith Democrat Rhyddfrydol ac Aled Davies. Dyma'r tro cyntaf i Gyngor Ceredigion gael ei arwain gan Blaid Cymru. Bydd gwaith anodd iawn o flaen y Cyngor ar adeg pan fo gwariant cyhoeddus dan gymaint o bwysau.

**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
**07968 728470**
**01970 820375**

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol



Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

## Diolch

Hoffwn i gychwyn, ddiolch i drigolion plwy' Trefeurig am fy ethol fel cynghorydd dros yr ardal. Rwy'n ei ystyried yn fraint ac yn anrhydedd i gael cynrychioli'r plwy' ar gyngor Ceredigion.

Rwy'n ymwybodol o sawl mater sy' angen sylw yn Nhrefeurig, ac mi fyddaf yn codi'r materion yma yn rhinwedd fy rôl fel cynghorydd. Mi fyddaf hefyd wrth gwrs yn barod i godi materion eraill pan yn briodol, felly cofiwch gysylltu â mi i drafod unrhywbeth sy'n peri gofid neu sy' angen sylw, ac mi wnai'n siwr fod y materion yma'n cael eu trafod gan y bobl priodol er mwyn ceisio cael ateb a/neu ganlyniad.

Rwy'n edrych ymlaen i'm cyfnod fel cynghorydd dros y plwy', a diolch eto am ddangos eich cefnogaeth a'ch ffydd ynddof.

**Dai Mason**

Cwmisaf, Cwmsymlog, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HA

01970 828 128 dai.mason@hotmail.com

(Nid yw e-bost y cyngor mewn lle eto ond mae'n debyg mai daim@ceredigion.gov.uk fydd y cyfeiriad)

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760



**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**ytincer@googlemail.com**

# Apêl Penpal

Fel yr addewodd Lynne Hughes, Penrhyn-coch, dyma lun o'r plant yn Sri Lanka yn derbyn y pensiliau a roddodd darllenwyr Y Tincer i'r gronfa.

Dyma lun o Darsha yn rhannu y pensiliau mewn cartref i'r dall a byddar. Mae Darsha yn 26 oed ac yn rhedeg tŷ bwyta yn Ella pentref bach yng nghanol Sri Lanka. Mae Darsha yn gweithio yn galed i helpu plant a phobl difreintiedig ei ardal.

Hoffai y plant ddiolch i chi yn ardal Y Tincer am eu cefnogi.





ytincer@
googlemail
.com

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
Cylch Meithrin Rhydypennau
Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.
Ti a Fi Llandre
Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre.
£1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans
@btopenworld.com

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com

# Dechrau Haf Yma'n Ohio...

Ie wir; mae hi'n ddechrau'r haf yma yn barod. Mae'r tywydd wedi bod yn gymysgedd rhwng nosweithiau stormus tu hwnt, gyda glaw trwm a rhybudd corwyntoedd, a dyddiau heulog twym gyda'r tymheredd yn agoshau i 90F. Dechrau'r haf, ble mae myfyrwyr Prifysgol Rio Grande wedi mynd tuag adre er mwyn ail-siarsio eu batris erbyn mis Medi, gan adael dim ond llond llaw o bobl ar ôl yn y pentref.

Mae'n debyg fod Ohio wedi mynd o flaen dyddiadau colegau a phrifysgolion Cymru gan bod diwrnod Graddio wedi dod a mynd yn barod yma'n Rio Grande. Fel arfer, byddai diwrnod graddio yng Nghymru, er enghraifft, tua chanol mis Gorffennaf, ond penwythnos diwethaf, y 5ed o Fai 2012, cefais un o brofiadau mwya' ysbrydoliaethus ym myd addysg; Y 136ed Seremoni Raddio, Prifysgol Rio Grande.

Fe wnaeth y diwrnod yma gychwyn diolch byth, gyda bore braf a'r haul yn tywynnu tra oedd teuluoedd y myfyrwyr llawn ffws a ffwdan o amgylch eu plant, gan bendronni ble i eistedd. Roedd y tywydd braf yn fendith i'r graddedigion oherwydd cafwyd y seremoni raddio ei chynnal y tu allan ar brif faes y brifysgol, ac felly nid oedd angen unrhyw fath o diced neu bas er mwyn mynychu'r digwyddiad. Roedd yna lwyfan wen grand o flaen yr eisteddle a dyma ble fydde oddeutu 400 o raddedigion yn derbyn eu diploma. Fe daniodd y gerddorfa o dan arweiniad Mr. Gary Stewart ac wrth iddynt chwarae'r dôn draddodiadol *Processional "Pomp and Circumstance"*, fe orymdeithiodd y 400 o gaddedigion gyda'r oddeutu 200 o aelodau'r gyfadran yn eu harwain o amgylch y campws bychan, hyd at y llwyfan wen, ble wnaethant eistedd yn eu cadeiriau dynodedig. Yna, yn wahanol i'n traddodiad ni yng Nghymru, cafodd yr anthem genedlaethol ei chanu ar ddechrau'r seremoni yn hytrach nac ar y diwedd. Mae'n rhaid bod yn onest, (ac efallai ychydig yn unochrog) ond doedd sefyll a cheisio'i chanu ddim yn cael yr un effaith arnai fel mae anthem y famwlad yn wneud! Wrth gwrs, mae "Hen wlad fy nhadau" ynom ni ers ein geni ac yn ein gwreddiau felly roedd hi'n naturiol i mi beidio teimlo'r un wefr â'r rheini o'm hamgylch. Er hyn, teimlais fy mod wedi rhoi siot go dda ar ganu'r "Star Spangled Banner", gyda dim ond rhannau o linellau roeddwn yn sicr arnynt, sef "O! say can you see...", "stripes and bright stars...", "O! say does that star-spangled banner..." a "... land of the free and the home of the brave?"

Clywsom lawer gan lywydd y brifysgol, Barbara Gellman-Danley, PhD ac hefyd gan y siaradwr gwadd sef Mr Sean Lane, *CEO, BTS Solutions.* Fe ddisgrifiodd mai pan oedd yn fachgen ifanc, ei freddwyd oedd i fod yn gyfoethog, ac ar ôl treulio blynyddoedd yng ngwledydd y Dwyrain Canol yn rhyfela, fe ddatblygodd meddalwedd a fyddai yn cael ei ehangu er mwyn cael ei ddefnyddio er mwyn adnabod y gelyn. Gyda hyn yn datblygu, fe ddaeth yn gyd-sefydlydd Partneriaid Technoleg *Gwyddoniaeth Omni.* Roedd ei neges tuag at y rheini oedd o'i flaen a oedd yn gwrando'n astud ar bob gair yr oedd yn ei ddweud, yn fy ysbrydoli i ac roedd y neges mor glir â 'Gwireddu breuddwydion'.

Ac felly, am tua awr arall, fe wyliom y myfyrwyr o bob oedran, o rai yn ei hugeiniau cynnar i un dyn o'r enw Clell Elliot, a oedd yn troi'n naw deg mewn mis, yn eu clogau wrth iddynt gerdded i fyny tuag at y llwyfan wen; eu rhieni, ffrindiau a'u hathrawon yn edrych arnynt, yn falch dros ben. Rydw i'n gyfarwydd â'r teimlad yma; does wir dim byd fel cerdded at eich diploma. Yn cerdded at eich dyfodol, bron.

Cyn i'r seremoni orffen yn swyddogol, fe daniodd y gerddorfa eto, a wnaeth ysbrydoli'r graddedigion i unwaith eto, gerdded yr holl ffordd o amgylch y campws ac yna, yn ôl i'r maes, ble wnaethant ymffurfio i mewn i gylch enfawr. Roeddwn yn siwr fy mod i wedi gweld rhywbeth fel hyn o'r blaen, ond dim mewn mewn ffilmiau Americanaidd! Gyda gair byr gan Nathan Wood yn llongyfarch ei gyd-fyfyrwyr, fe floeddiodd y dorf ac roedd y teimlad o barch a chariad wrth bob rhiant ac wrth bob ffrind yn cydio'n dyn arnaf; atgofion melys iawn o oddeutu dair blynedd yn ôl. Mae'n beth rhyfedd ofnadwy fy mod i, mewn tua blwyddyn, yn mynd i fod yn gwneud yr un fath beth â'r graddedigion yma; yn cerdded o gwmpas y campws gyda gwen o glust i glust, mae'n siwr.

Yn ystod yr haf, mi fyddai'n cymryd rhan mewn dosbarthiadau'r haf er mwyn gweithio tuag at radd Meistr mewn Addysg, *Intergrated Arts,* ac yn aros yn amyneddgar iawn tan iddynt ddechrau.

Hefyd yn ystod yr haf, gan fod yr adeg prysur y tu ôl i ni nawr, rydw i yn edrych ymlaen i weithio ar hanes yr ymfudo, yn enwedig gan fod yna lawer o hanes teuluoedd Llangwyryfon, Llanddeiniol a Llansanffraid wedi dod yma nôl yn gynnar yn y Bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae gen i ddiddordeb mawr yn hanes Fferm Benglog, Llanddeiniol.


Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu ateb hyd hynny, a fyddai o gymorth i mi, cysylltwch â mi trwy ebost ljones@rio.edu.

(Mae croeso i rai heb e-bost yrru y manylion trwy olygydd y *Tincer*)

**Lisa Jones**




**Y graddedigion, Aelodau'r Gyfadran, Teuluoedd a Ffrindiau**



**Mr Clell Elliot, a wnaeth ddechrau ei radd ôol yn y 40au, ac yn graddio o'r diwedd yn 2012, 89 oed!**

# Hola o Batagonia!



Mae'n anodd credu bod dros flwyddyn ers i fi ysgrifennu'r geiriau uchod ar gyfer *y Tincer* y tro cyntaf, a 'mod i nawr yn anfon gair atoch ar ddechrau cyfnod newydd yma ym Mhatagonia! Dychwelais i Bow Street ryw wythnos cyn y Nadolig, a threulio tri mis a hanner hyfryd gyda theulu a ffrindiau yng Nghymru. A deuddydd yn unig ar ôl i Esyllt fy chwaer briodi yng Nghapel Soar y Mynydd, ro'n i'n hel fy mhac unwaith eto am Batagonia bell. Dwi 'nôl ers rhyw fis bellach, ac wedi profi cymaint o garedigrwydd a chroeso eto nes 'mod i bron â theimlo fel na fues i adre o gwbl! Gyrhaeddais i mewn pryd ar gyfer penwythnos hir y Pasg (amseru da), ond ers hynny mae'r gwaith wedi bod yn ddiddiwedd!

Dwi wedi ailgydio yn rhai o weithgareddau'r llynedd, megis dosbarthiadau ôl-feithrin yn Nhrelew a'r Gaiman, gweithgareddau yn Nolavon, a darllen stori yn yr Ysgol Feithrin. Dwi hefyd yn cyflenwi yno deuddydd yr wythnos, ac yn cael gwefr o wrando ar y plant 2-5 oed yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau' ar ddechrau pob diwrnod! Anifeiliaid yw'r thema ar hyn o bryd, felly aeth y dosbarth hynaf i Sw Rawson yn ddiweddar – a ges i fynd gyda nhw! Cawson ni ddiwrnod braf yn gweld y gwanacos, ffesantod, moch, mwnci, moch cwta, condoriaid, arth... Roedd y plant wrth eu bodd! Ond roedd y teigr yn cysgu allan o'r golwg yn anffodus.

Cefais fendith o gyd-drefnu cwrdd diolchgarwch Capel Bethel y Gaiman, lle'r oeddwn i'n rhannu'r neges eleni eto. Roedd y sedd fawr yn llawn amrywiol fwydydd, yn gyfraniadau gan bobl leol, a'r diwrnod canlynol cynorthwyais i Luned Gonzalez i'w dosbarthu i rai o bobl hŷn y Gaiman. Roedden ni hefyd yn rhoi copïau o raglen y Cwrdd Diolchgarwch i bob un, ac yn y cartref cyntaf gofynnodd Luned i'r wraig 94 oed a hoffai i ni ganu emyn iddi – do'n ni ddim wedi trafod hyn ymlaen llaw! Ond wrth i ni ganu 'Cyfrif y Bendithion', roedd mwynhad a gwerthfawrogiad y wraig yn amlwg. Aethon ni i lond llaw o dai eraill (a chanu unwaith eto) ac ers hynny dwi wedi bod yn ymweld â gwahanol bobl yn eu cartrefi am sgwrs, gyda chacen yn rhodd!

Un peth sy'n wahanol eleni yw'r ffaith mod i'n byw yn Nhŷ Camwy. Tŷ teulu ydoedd yn wreiddiol ond ers blynyddoedd bellach mae wedi bod yn gartref i athrawon a phregethwyr sy'n dod i weithio yn Nyffryn Camwy. Mewn noson groesawu gyfrinachol i fi a chyn-athrawes, cynhaliwyd raffl er mwyn codi arian i brynu peiriant golchi newydd i'r tŷ, a chawson ni'n dwy'r fraint o dynnu'r tocynnau lwcus. Ac enw pwy dynnais i allan o'r môr o docynnau ond Lois Dafydd, Tŷ Camwy! Y diwrnod canlynol cyrhaeddodd fy ngwobr ar ffurf teisen fawr o siop 'Blasus', a chyn diwedd yr wythnos roedd y peiriant golchi newydd wedi'i osod. Mae'r tywydd sych a gwyntog diweddar wedi bod yn berffaith ar gyfer sychu'r dillad glân!

Dwi wedi dechrau cynorthwyo ffrind i mi sy'n dysgu Cymraeg yn Ysgol Bryn Gwyn, sef ardal wledig ar gyrion y Gaiman. Adolygu ry'n ni wedi'i wneud bennaf gyda'r plant hyd yn hyn, a'r rhai oedd wedi cael gwersi yn y gorffennol yn cofio tipyn – y cyfarchion, y lliwiau, teimladau, a 'pen-ôl ar y gadair'! Maen nhw hefyd yn hoff o ganu 'Pen, ysgwyddau, coesau, traed'. Cefais lifft i'r ysgol y diwrnod cyntaf gan ddychwelyd i'r Gaiman ar y bws ysgol, ond mentrais ar fy meic y diwrnod canlynol. Dywedodd fy ffrind wrtha i fod y plant ar y bws yn dweud ymysg ei gilydd wrth iddyn nhw yrru heibio (yn Sbaeneg), 'Edrychwch, mae'r athrawes Gymraeg ar gefn beic!'

Wrth gwrs, ynghanol y prysurdeb yma dyw siesta dal ddim yn rhan o batrwm fy niwrnod! Ond rhywsut mae cig, jam llaeth, mate, empanadas, a chacennau o bob lliw a llun wedi gwneud eu ffordd i 'mywyd i'n hawdd iawn, ac o'r herwydd dwi'n rhedeg gyda'r boreau sy ddim yn rhywbeth arferol yma. Pwy a ŵyr beth mae pobl yn ei ddweud pan maen nhw'n gweld y Gymraes a'i choesau gwynion yn rhedeg wrth iddyn nhw yrru heibio!

**Lois Dafydd**

# O'r Cynulliad - Elin Jones AC



Yn ystod y ddeufis ers fy ngholofn ddiwethaf, rwyf wedi mynychu nifer helaeth o ddigwyddiadau amrywiol ar hyd a lled Ceredigion. Nôl ym mis Mawrth, roedd hi'n fraint i gael derbyn gwahoddiad Merched y Wawr Beulah i'w hannerch yn eu cyfarfod yng Nghaffi Emlyn, Tan-y-groes. Roedd hi'n braf gweld cynifer o wynebau cyfarwydd yn bresennol a chael cyfle i esbonio fy nyletswyddau fel Aelodau Cynulliad Ceredigion.

Roeddwn hefyd yn falch i gael fy ngwahodd i fod yn banelwraig mewn seiat holi a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Rwyf wedi bod yn mynychu digwyddiadau gwahanol i nodi'r diwrnod hwn yn flynyddol yn y sir, ac rwy'n gobeithio y gwnaeth y gynulleidfa fwynhau'r drafodaeth.


Mynychais agoriad swyddogol yr amddiffynfa arfordirol yn y Borth ychydig wythnosau yn ôl. Rwy'n gwybod bod trigolion yr ardal wedi bod yn edrych ymlaen at weld y gwelliannau yma ers blynyddoedd er mwyn delio gyda bygythiad y cynnydd yn lefelau'r môr, ac roedd hi'n dda gweld Gweinidog yr Amgylchedd yn dod i weld ffrwyth buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd dros ei hun.

Yr un diwrnod, roeddwn yn bresennol yn y seremoni fer a gynhaliwyd i agor y maes chwarae newydd ar dir y castell yn Aberystwyth. Mae yna alw mawr yn lleol am gyfleusterau newydd ar gyfer plant – boed yn lleol neu'n dwristiaid – ac rwy'n gwybod bod defnydd da eisoes yn cael ei wneud o'r maes chwarae ar ei newydd wedd.

Rwyf hefyd wedi cefnogi trigolion ystâd Maesglas yn Aberteifi sy'n brwydro yn erbyn cynlluniau Tai Ceredigion i leihau ac adleoli eu maes chwarae er mwyn medru codi mwy o dai. Bwriad y preswylwyr yw cofrestru'r maes chwarae fel 'clwt pentref' er mwyn atal unrhyw ddatblygiadau ar y tir yn y dyfodol. Mae trigolion Tal-y-bont eisoes wedi cyflwyno cais o'r fath i atal cynlluniau i godi mwy o dai ar faes chwarae ar ystâd Maes-y-Deri. Rwy'n gefnogol i ymgyrchoedd trigolion Aberteifi a Thal-y-bont i gofrestru'r tiroedd at ddefnydd cymunedol ac rwy'n edrych at gydweithio gyda nhw ymhellach ar eu ceisiadau dros y misoedd nesaf.

# Adolygiadau

R. Gerallt Jones *Diptych - cerddi: poems* Cyhoeddiadau Modern 144t. £14.99




Er bod R. Gerallt Jones yn nofelydd mentrus, yn feirniad llenyddol craff, yn addysgwr brwd a blaengar, bardd ydoedd yn ei hanfod. Roedd yn bersonoliaeth hynod, yn crwydro o swydd i swydd, o wlad i wlad, ac o iaith i iaith, ac yn treiddio at galon pethau yn ei famiaith (fel yn *Gwared y Gwirion*), ac yn torri cwys soffistigedig yn ei iaith academaidd, y Saesneg. Brwydrai rhag culni, ac ymagweddai'n ddyneiddiwr eangfrydig megis Alun Llywelyn-Williams.

Cymwynas oedd i'w wraig Sŵ gywain y cyfieithiadau hyn at ei gilydd yn sgil ei farw annhymig. Maen nhw'n codi cwestiynau diddorol ynglŷn â natur cyfieithu, ac felly da oedd ailgyhoeddi trafodaeth y bardd ei hun ar y pwnc, 'The Problems of Translation', lle y dywed mai proses wahanol iawn yw cyfieithu barddoniaeth gan yr awdur ei hun a chyfieithu gan rywun arall. Os rhywbeth, mae'n well i rywun arall gyfieithu, oherwydd mae'n glynu'n fwy triw at y gwreiddiol. Tuedd y bardd ei hun yw creu 'fersiynau' newydd o'i gerddi, a cheir enghreifftiau o hynny yn y gyfrol hon. Mae 'Grandmother', er enghraifft, sy'n honni bod yn fersiwn o 'Tai Duon' , yn fyrrach na'r gerdd wreiddiol Gymraeg o gryn dipyn. Wrth gwrs, i'r darllenydd sy'n Gymro Cymraeg, mae hynny'n fath o fonws. Prin bod llawer o werth mewn cael cyfieithiadau llythrennol o'r cerddi Cymraeg.


Mewn nodyn mor fyr â hwn, does dim modd gwneud cyfiawnder â'r cerddi Cymraeg a Saesneg. Gallaf ddweud yn blwmp ac yn blaen, fodd bynnag, fod rhagair yr Athro Walford Davies a rhagymadrodd yr Athro Bobi Jones yn gyflwyniadau gafaelgar a threiddgar iawn i fywyd a gwaith R Gerallt Jones. I'r rheini nad ydynt yn gyfarwydd ag ef na'i waith, mae'r gyfrol hon yn fan cychwyn ardderchog.

**John Rowlands**

---

John Meurig Edwards *Cymry yn y Gêmau Olympaidd* Y Lolfa (Cyfres Stori Sydyn) 96t. £1.99

Dyma gyfrol arall yn y gyfres hynod boblogaidd Stori Sydyn gan y Lolfa. Mae nifer o'r llyfrau yn y gyfres hon yn trin a thrafod enwogion ym myd chwaraeon gyda'r bwriad o ddenu darllenwyr a fyddai, efallai, yn ei chael hi'n anodd canfod rhywbeth at eu dant ymysg cynnyrch y byd cyhoeddi Cymraeg.




Fel un sy'n ystyried agor pecyn o fisgedi siocled yn dipyn o ymrafael, roedd darllen am gampau athletwyr megis Colin Jackson a enillodd 25 medal ym mhrif gampwriaethau ei faes yn ystod ei yrfa (er mai un fedal Olympaidd sy'n eu mysg – y fedal arian a enillodd yn Seoul yn 1998), yn agoriad llygad. Felly hefyd gampau enwogion megis Lynn Davies, Tom Lucy, Geraint Thomas a David Davies. Mae'r bennod sy'n olrhain gyrfa ddisglair Tanni Grey-Thompson yn sicr o godi cywilydd ar y rhai diog yn ein mysg – mae hi wedi ennill 16 o fedalau Olympaidd, gydag 11 o'r rheini'n fedalau aur!

Nid yr enwau 'mawrion' yn unig sy'n cael eu crybwyll yn y gyfrol hon: ynddi ceir nifer o enwau cwbl ddieithr i mi – pobl megis Paulo Radmilovic, a adnabyddir fel 'Siarc y Taf', ac a enillodd nifer o fedalau am nofio ac am chwarae polo dŵr ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif.

Ceir pennod fer ar ddechrau'r llyfr yn adrodd peth o hanes y gêmau Olympaidd modern. Mae pob math o gampau megis marchogaeth a bocsio yn cael eu dathlu yn y gyfrol fechan a difyr hon, ac mae'n syndod faint o Gymry sydd wedi gwneud eu marc yn y gêmau Olympaidd.


Mae'r iaith yn syml ac yn rhwydd i'w darllen. Dyma lyfr sydd wedi dysgu llawer i mi. Byddaf yn rhoi tipyn mwy o sylw i'r digwyddiadau yn Llundain ym mis Awst yn sgil ei ddarllen.

Janice Jones

---

Tony, Aloma, Alun Gibbard *Tony ac Aloma - Cofion Gorau* Y Lolfa 216t. £14.95

I mi'n bersonol, pleserus a thrafferthus oedd darllen llyfr bywgraffyddol Tony ac Aloma, *Cofion Gorau*. Pleserus, am imi dreulio cyfnod helaeth o'm mywyd yn rhannu llwyfan â hwy, yn profi rhin eu cyfeillgarwch ac yn mwynhau eu llwyddiannau a cheisio eu cynnal yn ystod adegau anodd. Trafferthus, am fy mod yn gorfod rhoi'r gorau i ddarllen y llyfr bob tro y cawn fy atgoffa o un o'u caneuon. Sawl tro y bu raid i mi godi a dechrau canu neu chwibanu'r alawon, a'r rheiny'n mynd rownd a rownd yn fy mhen! Ond dyna oedd y rheswm dros lwyddiant y ddeuawd. Roedd gan Tony y ddawn brin i briodi gair ac alaw a fyddai'n glynu yn y cof, nid am gyfnod, ond am byth. Cyplyswch hyn â phresenoldeb apelgar mab a merch a feddai ar leisiau swynol – a dyna i chi lwyddiant digamsyniol. Profwyd hyn mor bell yn ôl â chwedegau'r ganrif ddiwethaf pan fyddai pob un o'u recordiau yn cyrraedd brig siartiau gwerthiant gorau *Y Cymro*. Yn ystod cyfnod y Nadolig 2011 fe aeth y gyfrol sy'n olrhain hanes eu bywyd i frig y gwerthwyr gorau unwaith yn rhagor! Llwyddiant eto, a hynny ar ôl bron hanner can mlynedd.




Ond mae i lwyddiant ei bris. Yn ystod y cyfnod hwnnw profodd y ddau hapusrwydd a thristwch, mwynhad a chwerwedd, uchelfannau ac iselderau, a'r profiadau hyn i gyd wedi eu gweld gan y torfeydd a ddeuai i'w hedmygu a'u caru. Yn y gyfrol hon mae'r ddau wedi cael y rhyddid i gyfleu eu teimladau ac i ddatgelu i ryw raddau y rhesymau dros eu llwyddiannau, eu siomedigaethau a'u problemau. Yn wir, mae'r ddau wedi llwyddo i gyfleu eu teimladau yn ddiflewyn-ar-dafod a hynny heb fynd dros ben llestri. Mae hiwmor y ddau yn cael ei amlygu yn y gyfrol a hynny yn bennaf oherwydd y rhyddid eto i gyfleu eu hunain yn dafodrydd a thafodieithol.

Mae'r daith faith, gymhleth a arweiniodd o'r cyfarfyddiad "damweiniol" hwnnw yn nhŷ nain Aloma yn 1964 i'r Gresham yn Blackpool eleni wedi ei chofnodi'n gynnil iawn gan Alun Gibbard. Prin mae'r darllenydd yn sylwi ar ei ran a'i bresenoldeb yn y ddrama ac eto mae wedi llwyddo i blethu'r cyfan rhwng dau glawr yn effeithiol.


Mae yna un rheswm arall dros lwyddiant gwerthiant y llyfr. Pobl fusneslyd ydi'r mwyafrif ohonom yn y bôn. Roedd pawb am gael gwybod unwaith ac am byth a oedd Tony ac Aloma yn ddau gariad! Meddai Tony am Aloma, "Nid yw'n hawdd yng nghwmni hon, ond haws fel ma'i – na hebddi." Ac meddai Aloma am Tony, "Ond anodd i deimlo dim drwg amdano, a hawdd iawn er hynny – ydi 'garu o." Dau gariad? Mynnwch y llyfr, darllenwch o'n drwyadl ac efallai y dowch chitha' i benderfyniad! O'm rhan fy hun, rwy'n meddwl yr a' i i rywle clyd yn y tŷ i ganu rhai o'u caneuon unwaith eto. 'Mae gen i gariad......!'

Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa)

---

Sharon Morgan *Hanes Rhyw Gymraes - Hunangofiant Sharon Morgan* Y Lolfa 228t £9.95

Fel yr awgryma'r teitl, atgofion yr actores Sharon Morgan sydd yma, a dyma ran difyrraf y cofiant hwn. Wedi stryffaglu drwy'r achau ar ffurf catalog ffeithiol, dyma gyrraedd at gnewyllyn creadigol y stori, sef hanes ieuenctid afieithus a gyrfa gynnar merch egnïol, gref yn ystod cyfnod chwyldroadol yn hanes ein cenedl. Carlama'r hanesion, y dylanwadau a'r sylwadau yn fwrlwm o brofiad, carwriaeth ac antur – a'r cyfan wedi'i ysgrifennu mewn arddull rwydd, gyda phinsiad o dafodiaith




sy'n rhoi blas ei bro ar ei bywyd.

Wedi'u plethu trwy'r bennod 'Cenedlaetholdeb' ceir dyfyniadau o ambell sioe o eiddo'r awdur gan roi inni frasluniau barddonol o gymeriadau teuluol ac o ambell gyn-athrawes. Mae'r newid arddull yma yn effeithiol, felly hefyd y gerdd ddwys o eiddo Olwen, ffrind bore oes a fu farw'n un ar hugain oed. Rywsut, mae gosod y gerdd fyfyrgar hon ar ddiwedd pennod sy'n trafod cyfnod mor arbennig ym mywyd Sharon yn gwrthgyferbynnu'n effeithiol â'r roced o egni a brofodd bywyd i'w eithaf pan oedd hi'n aelod o Gwmni Theatr Cymru.

Ceir myfyrio teimladwy ar gymeriadau a ddylanwadodd yn gryf ar yr awdur, megis ei ffrind Siân Edwards, Cymraes Gymraeg falch a ddefnyddiai'r iaith yn hyderus a naturiol. Newidiodd y ferch hon agwedd Sharon a'i mam at yr iaith a Chymreictod, a throi Sharon yn genedlaetholwraig weithgar ac actores â chanddi gydwybod bendant. Elfen arall o'r llyfr yw'r antur a adroddir yn gyfochrog â stori'r awdur, sef hanes a chymeriadau hynod cyfnod cynnar y theatr broffesiynol Gymraeg.

Cyfeirir yn aml yn y llyfr at ymwybyddiaeth Sharon Morgan o'r datblygiad a fu yn safle'r ferch mewn cymdeithas, ac efallai y byddai actores ifanc heddiw yn llai parod i dderbyn rhai o'r rhannau a chwaraeodd Sharon yn y 70au. Ond siom i mi oedd i'r llyfr orffen yn swta pan ddarganfyddodd ei bod yn feichiog, a hynny am na chawn rannu drama arall ei bywyd, sef y gwrthdaro ymarferol rhwng magu plentyn a chynnal gyrfa lwyddiannus. Braf fyddai cwtogi adran gychwynnol y llyfr er mwyn rhoi gofod i hanes mwy diweddar yr actores ddawnus, a darllen am her y fam ifanc yn yr 80au cynnar wrth iddi geisio gweithio a magu plentyn yr un pryd, a hynny cyn i'r termau 'meithrinfa' a 'chlwb brecwast' ddod yn bethau cyfarwydd.

Llyfr darllenadwy iawn, wedi'r penodau cyntaf, yw hwn, a chofnod difyr o gyfraniad unigolyn creadigol at gyfnod byrlymus yn hanes gwleidyddol a diwylliannol Cymru.
Mari Owen

Adolygiadau oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

***Lluniau i'w mwynhau***
*Darluniau Gwreiddiol*
OrielWynMel
ARDDANGOSFA
orielwynmel
MORLAN, ABER
Mai 1 -31
**www.orielwynmel.co.uk**



# Lluniau Del Wyn Mel

Mae'n debyg i Wynne Melville Jones (Wyn Mel) gael dos go ddifriol o Kyffinitis a chreu degau o beintiadau yn ystod y llynedd ac eleni ar ôl iddo ymddeol o yrfa lewyrchus ac amlwg ym myd PR. Mae 40 ohonynt i'w gweld yng Nghanolfan y Morlan hyd nes diwedd mis Mai, ac mi gefais orig ddifyr yn crwydro o gwmpas ei arddangosfa.

Ag yntau wedi bod yn astudio celf yng Ngholeg Celf Abertawe a Choleg y Drindod yn ei lencyndod, mae'n amlwg iddo ailgydio yn ei grefft gydag arddeliad a llwyddiant mawr. Mae'n defnyddio unai paent olew neu acrylig mewn arddull lled-ddiniwed (naïve) i ddarlunio tirluniau o fannau yn bennaf yn siroedd Ceredigion a Penfro. Mae ei arddull syml yn cuddio meistrolaeth gelfydd o sut i ddefnyddio paent i gyfleu golau a lliw er mwyn ailgreu ysbryd a naws mannau sydd, mae'n debyg, yn agos at ei galon, megis Cors Caron, castell Gwallter, Eglwys y Mwnt, Mynydd Bach, ac ardal Tyddewi.

Roedd cyfres o luniau o Gors Caron yn ystod y gaeaf wedi hoelio fy sylw yn arbennig, a dyma feddwl, 'Trueni na fyddai lluniau o'r un mannau yn y tymhorau eraill hefyd.' Ond wedi dychwelyd at fy nghyfrifiadur dysgais ei fod eisoes wedi gwneud cyfres o luniau hydrefol a'u harddangos yn y Talbot, Tregaron, y llynedd. Yn ôl y sôn, roedd bwriad ganddo i wneud y ddau dymor arall. Gobeithio yn wir ei fod wedi cydio ei welis – a'i frwshis paent, wrth gwrs – ac wedi mentro yno yn ystod y gwanwyn. Peryg y bydd angen mac a welis arno eto pe digwydd iddo fentro yno yn ystod yr haf hefyd. Roedd y gwead (texture) y darluniau olew o'r gors wedi creu argraff arnaf.

Trawiadol iawn ydi'r gyfres o luniau'r caeau cnydau rêp. Os ydi ffermdai, eglwysi, capeli, tafarndai a bythynnod gwyngalchog at eich dant, fe gewch wledd yn 'Oriel Wyn Mel'. Mae nifer o luniau glan môr dramatig i'w gweld yno ac roedd naws hudolus i 'Machlud Haul' ar brom Aberystwyth yng nghwmni cwpwl cariadus. Fe hoffwn fod wedi gweld rhagor o bobl a chreaduriaid yn ei dirluniau godidog, ond efallai y bydd rhagor o bethau byw yn crwydro i mewn i'w waith yn y dyfodol. Ond nid beirniadaeth mo hynny cofiwch. Mwynhewch!

Mae'n werth ymweld â'i wefan i gael blas ar rai o'i greadigaethau eraill nad ydyn nhw i'w gweld yn y Morlan: www.orielwynmel.co.uk.

**Gordon Jones**



# COLOFN MRS JONES

Mae’n beth cyffredin clywed gêm pêl-droed yn cael ei disgrifio fel gêm dau hanner - a dyna sydd yn gywir, fod y rhifolyn yn cytuno â’r ansoddair ac nid â’r enw. Cryfder y Gymraeg yma yw ei bod yn medru defnyddio enwau yn ansoddeiriau - a phan glyw rhywun yr ymadrodd, mae ganddo syniad beth sydd yn dod nesaf, sef undod yn cael ei greu o wahaniaethau mawrion. Felly’r golofn hon, mae’r ddau bwnc y mae’n ymdrin â hwy filltiroedd ar wahân ond yn un golofn,er hynny.

Fel y gŵyr rhai ohonoch eisoes, fe fu’n rhaid i mi roi Buster i lawr yn ddiweddar a hynny yn ddigon disymwth.Yr oedd ganddo gancr ar y benglog ac fe wyddwn fod y diweddd yn agos. Ond i’r diwedd, edrychai yn dda, yr union noson y bu’n rhaid i mi ei roi i lawr, roedd un o’m cymdogion yn dotio ato.

Y mae ei golli yn loes enbyd i mi. Nid y golled waethaf o le yn y byd ond teimlaf i mi golli rhyw ddolen gydiol rhyngof fi a Meirion ym marwolaeth y ci a fagwyd gennym, yn sicr collais groeso a chwnmni a’r angen i fynd am dro. Fel y dywedais wrth gyfaill y dydd o’r blaen, mae gennyf fwlch siâp ci yn fy mywyd bellach i gydfynd a’r bwlch siâp gŵr. Dim ond ci oedd, fydd ymateb rhai ohonoch,a gwir y gair. Ni chollais erioed afael ar y ffaith mai ci oedd o, nid plentyn na phlentyn cocs ond ci. Ond roedd o yn gi arbennig, yn gi a oedd yn garedicach na aml i berson, yn gi a chanddo enaid petai diwinyddiaeth yn caniatau hynny. A mae’r holl gwestiwn a oes gan anifeilioad eneidiau yn gwestiwn y byddaf i yn hoffi sglefrio drosto, fe fyddaf yn rhoi’r party line Gristnogol a dyna hi...achos, i mi gael cyffesu fy mai, dydw i ddim yn siwr, weithiau..y mae ambell i gi, a chath, wedi gwneud i mi amau.

Er mai Buster yw’r unig gi y bum i fy hun yn berchen arno, yn fy nydd, yr wyf wedi adnabod llawer o gŵn, rhai ohonynt yn dda iawn. Y cyntaf un a wnaeth i mi amau y busnes eneidiau yma oedd Pero, ci olaf fy nhaid. Fe gafodd fy nhaid Pero rhyw gwta chwe mis cyn ei farw. Dros angladd fy nhaid, fe’i caewyd yn yr ysgubor fel na allai weld beth oedd yn digwydd. Pan oedd popeth ar ben, fe’i rhyddhawyd. A diflannodd. A chafwyd hyd iddo ar fedd fy nhaid.

Ond nid yw’r stori yn gorffen yn y fan yna. Roedd cymydog i fy nhaid wedi cytuno i gymryd Pero a felly bu. Bu Pero fyw am flynyddoedd ar ôl marw fy nhaid gan ymweld yn achlysurol â’i fedd, pan fyddai Pero wedi diflannu, fe wyddai pawb lle i ddod o hyd iddo. Pan euthum i i’r coleg,yr oedd Pero yn dal yn fyw, er mewn gwth o oedran. Aethom ninnau i’r Meysydd dros y Nadolig yn ôl ein harfer a chodais innau un diwrnod i weld Pero yn yr hewl bach, rwan, yn ei holl grwydro at fy nhaid, nid oedd wedi dod i’r hewl bach o’r blaen ac yn sicr, ddigon, ni fu erioed yn y tŷ. Ond daeth i mewn a chyfarch Mam a’m brodyr a fi cyn mynd allan yn ei ôl. ‘Mae o yn gwybod ei fod i yn mynd i farw’, meddai Mam a mi roedd hi yn iawn. Ond i le’r aeth o i farw? Ie, ar fedd fy nhaid. Ar ôl ffarwelio a disgynyddion ei arwr, aeth at ei fedd a marw arni.

A dyna i chi Buster, horwth mawr fel y gwyddoch chi ond y meddalaf o gŵn cyhyd a nad oedd neb yn bygwth merch neu blant. Y ci a ruthrai ar ôl cathod ond a gerddai mor ofalus o gwmpas rhywun oedd yn hen neu yn fregus ac a escortiai y Canon Parry o’u droeon ef tua Bro Gynin gan ei arwain at ei dŷ fel petai am wneud yn siwr ei fod yn cyrraedd adref yn saff. Fe gododd Buster gryd ar Meiron a mi unwaith. Pan fu farw Gloria, aeth Buster ar streic newyn achos yr roedd Gloria a fo yn ffrindiau mawr iawn. Ddiwrnod ei hangladd, fe benderfynais i fynd ag ef at y bedd yn y gobaith y byddai gweld y bedd yn ei gysuro. Gadawodd Meirion ef yn rhydd ac i ffwrdd ag ef ar ei union at y bedd fel petai wedi bod yn yr angladd ei hun. Safodd am ychydig ger traed y bedd, cyn moesymgrymu iddo. Daeth rownd i’r pen, a gwneud yr un peth cyn eistedd i lawr am ychydig...yna, codi, ysgwyd ei hun, ac adref a bwyta clamp o ginio. Fe gymerodd hi gryn amser i’r dŵr oer a oedd yn rhedeg i lawr cefnau Meirion a mi beidio. A phan fu Meirion ei hun farw, er na fu streic newyn, fe fu’n crynu am ddyddiau ac yn glynu ataf fel deilen.

Mae gennyf hiraeth ar ei ôl a nid oes gennyf gywilydd datgan hynny. Nid yw yn hiraeth mor ddwys a garw a’r hiraeth ar ôl Meirion neu hyd yn oed ar fy rhieni sydd wedi marw ers ymron ddeng mlynedd ar hugain, ond mae’n hiraeth caled er hynny.

A dyma ddiwedd y golofn a’r ail hanner nad yw yn ail hanner llythrennol neu fy fyddai ar Ceris angen dyblu maint y *Tincer*.

Mae plwyf Penrhyn-coch yn blwyf masnach deg,ac wedi bod felly ers rhai blynyddoedd. Un o’r pethau sydd yn achosi’r angen am ymgyrch masnach deg yw’r fasnach arfau a gwna hynny mewn dwy ffordd. Un yw rhoi grym yn nwylo gormeswyr sydd yn hollol fodlon gadael i’w gwerin ddioddef newyn a thlodi, a’r ail yw trwy gytundebau masnachol lle y mae’r gwledydd datblygedig yn cytuno i brynu offer a bwyd gan wledydd y Trydydd Byd ar yr amod eu bod yn prynu arfau. Mae’r arfau yn ddiffael yn costio mwy na’r hyn a brynir a dechreua’r gwledydd dyfu bwyd i’w werthu yn hytrach nag i’w fwyta gan greu eisiau. Cymerwch chi Brydain yn gwerthu offer rhyfel i Saddam gan wybod yn iawn y defnyddiai hwy i wtresu ei bobl i hun ar y naill law ac ar filwyr Prydain a’r U.N. ar y llaw arall. Mae Amnest Rhyngwladol yn rhedeg ymgyrch yn erbyn y fasnach arfau ar hyn o bryd, a thybiais i y byddai yn ffitio yn iawn gyda’n statws masnach deg i ni gefnogi Jenny Williamson o’r Borth sydd yn seiclo i John o’ Groats i godi arian ar gyfer yr ymgyrch. Fe gynhelir noson yn neuadd yr eglwys, Penrhyn-coch, ym mis Mehefin pryd y bydd Jenny yn trafod ei phrofiadau ar ei thaith i John o’Groats ac yn sôn ychydig am yr ymgyrch. Os ydech chi yn medru bod o gymorth i mi drefnu’r noson hon, allwch chi gysylltu â mi, os gwelwch yn dda? Ebostiwch fi ar lonabuster@aol.com neu anfonwch destun ar 0781234045 neu galwch heibio, rwyf adref ar ôl tua 7 bob nos.


**Gofal Traed Aber**

Ceiropodydd / Podiatrydd
cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol
**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**
Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar **01970 617269** am apwyntiad

**RHODRI JONES**
**Brici a chontractiwr adeiladu**
**07815 121 238**
**Gwaith cerrig**
**Adeiladu o’r newydd**
**Estyniadau Patios**
**Waliau gardd**
**Llandre Bow Street**

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

**GWASANAETH TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

### Gwobr

Llongyfarchiadau i Lily Pryce o flwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth yn y ffair wyddoniaeth a pheirianneg a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar. Wrth grwydro o gwmpas y stondinau gwahanol, bu rhaid i'r plant lanw holiaduron gan ateb cwestiynau gwyddonol. Lily cafodd y sgôr uchaf. Da iawn ti!

### Ymweliad

Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar Fai 1af ar gyfer arddangosfa fawr 'Dilyn y Fflam' a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth Prydain. Roedd yr arddangosfa yn tywys y plant ar daith hynod o sefydlu'r Gêmau Olympaidd yng ngwlad Groeg (776BC), a thranc y gêmau dros fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, hyd at rôl bwysig Prydain pan gafodd y Gêmau eu hail-sefydlu yn Athen ym 1896 a'r penodau arwyddocaol yn hanes y Gêmau byth ers hynny. Cafodd pawb brynhawn wrth eu bodd. Diolch yn fawr i Rhodri Morgan a gweddill y staff yn y Llyfrgell Genedlaethol am y croeso a'r cyfle unigryw yma.

### Ymwelwyr

Diolch yn fawr i Casper (Mam Lily) am ddod i helpu plant y Cyfnod Sylfaen paratoi'r ardd yng nghefn yr ysgol. Bu'r plant yn brysur blannu hadau ac rydym yn edrych ymlaen at weld y llysiau'n tyfu.

Cynhaliwyd Cinio i'r Gymuned ar ddydd Mercher, Mai 9fed. Daeth 15 aelod o glwb yr henoed ynghyd i gael clonc a mwynhau cinio blasus Wendy Jones, ein Prif Gogydd. Mae'r plant yn edrych ymlaen yn arw at ein hymweliad i ddiddanu aelodau clwb yr henoed yn neuadd y pentref cyn diwedd y mis.

Diolch yn fawr iawn i Joy Cook a Jane Leggett am wirfoddoli i gynorthwyo gyda gweithgareddau darllen yn yr ysgol. Mae'r plant yn elwa'n fawr ac yn mwynhau'r cyfleoedd yma'n fawr iawn. Diolch o galon am eich amser a'ch caredigrwydd.



**Lily Pryce**



**Llongyfarchiadau i Glyn, Courtney, Lily a Skye am ennill tystysgrif Disgybl yr Wythnos.**



**Dyma rai o blant Cyfnod Allweddol 2 yn penderfynu ar y ffordd orau o wahanu deunyddiau gwahanol fel rhan o'u harbrawf gwyddoniaeth.**



**Priya a Charlotte wedi llwyddo gwahanu'r tywod a'r naddion haearn gan ddefnyddio magnet**


Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
**Ffôn: 01970 820122**

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân

01970 820149
07980 687475

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

ytincer@googlemail.com

# YSGOL PEN-LLWYN

**Diwrnod Gwyrdd**

Wedi dychwelyd o wyliau'r Pasg fe gawsom ddiwrnod gwyrdd yn yr ysgol. Ni fyddai wedi bod yn anodd sylwi fod rhywbeth gwahanol ar y gweill gan y gadawodd y plant eu gwisg ysgol adref gan wisgo pob dilledyn gwyrdd oedd ganddynt!
Y pwrpas oedd dwyn sylw at yr amgylchedd a'r modd y gallwn ni i gyd helpu i ofalu am y byd o'n cwmpas. Fe ofynnwyd i bawb sut yr oeddynt wedi teithio i'r ysgol ac fe wnaed ymdrech wythnos yn ddiweddarach i hybu mwy o gerdded i'r ysgol. Fe fu'r ymgyrch fer yma yn lwyddiant gan i bron traean o'r plant feicio neu gerdded i'r ysgol. Yr un a ddaeth bellaf ar y beic oedd Steffan Watson a ddaeth yr holl ffordd o Bant- y-crug. Fe ddylem sôn hefyd am Elfyn Hancox a gerddodd o ben ucha'r pentref i'r ysgol-ymdrech arbennig gan bawb.
Yn ystod bore'r diwrnod gwyrdd fe gawsom ymweliad gan Mererid o'r Cyngor Sir sy'n gweithio i hybu ailgylchu. Fe soniodd am yr hyn sy'n digwydd gan ddangos esiamplau diddorol o ailgylchu. Fe dderbyniodd y plant bensiliau oedd wedi eu gwneud gan ddefnyddio bocs Cryno Ddisg. Fe aeth plant dosbarth 1 yn eu blaen i greu modelau allan o sbwriel. Yn y prynhawn fe fu'r plant yn brysur yn garddio.

**Radio Cymru**

Gan aros gyda'r thema o arddio – fel y gŵyr pob un sy'n ceisio gweithio gyda byd natur i dyfu blodau a llysiau mae yna rhai cwestiynau yn codi sy'n achosi penbleth. Fe gafodd plant Pen-llwyn y cyfle i ofyn i Carol - sef garddwraig ar raglen Geraint Lloyd rhai cwestiynau sydd wedi codi yn ystod y rhaglen. Fe'i hatebodd yn hyderus ond efallai cwestiwn Haf oedd yr un a achosodd y rhan fwyaf o grafu pen. Yr oedd am wybod pa un o'r coed yr ydym wedi plannu fel shetyn fydd yn tyfu gyflymaf.
Mi roddodd Carol y coed canlynol mewn trefn –y coed a blannwyd oedd draenen wen, celyn, cyll, dogrose a dogwood. Mi fyddwn yn rhoi gwybod i'r rhaglen os oedd Carol yn gywir a'i peidio. Os hoffech sialens beth am ddanfon eich syniadau chi i'r ysgol ac fe wnewn ni weld beth fydd y canlyniad. Mae'r plant eisoes wedi dechrau mesur y twf yn ofalus.

**Gorsaf Capel Bangor**

Erbyn hyn mi fyddwch yn meddwl mai ond garddio yr ydym yn ei wneud yma ym Mhen-llwyn a dyma'r stori olaf gydag unrhyw gysylltiad! Mi oeddem yn falch o dderbyn galwad o Reilffordd Cwmrheidol yn ddiweddar yn gofyn os y buasem yn hoffi helpu trawsnewid yr orsaf gyfagos gan ddefnyddio grant a dderbyniwyd o'r Cynulliad. Mi ydym yn edrych ymlaen at y fenter fydd yn datblygu'r amgylchedd leol.

**Ymweliad â'r Capel**

Mi fuodd plant dosbarth 1 am dro i weld adeilad y capel lleol yn ddiweddar fel paratoad ar waith 'collage.' Mi fydd yr ymweliad yn clymu mewn i waith Addysg Grefyddol a Cherddoriaeth hefyd.

**Cegin Arbennig**

Wedi dychwelid mi oedd y plant yn gallu mwynhau pryd o fwyd arbennig wedi ei baratoi gan Cathy, ein cogyddes. Hoffem estyn ein llongyfarchiadau iddi gan fod y gegin wedi derbyn y sgôr o 5 am lendid yn ddiweddar. Dyma'r sgôr uchaf posib.

**Llythyrau i wlad Pŵyl**

Mae'r plant wedi bod wrthi'n ddiwyd yn ysgrifennu llythyrau i'w ffrindiau yn Ysgol Ryngwladol Wroclav yng ngwlad Pŵyl. Mae'n ddinas hyfryd heb ei chyffwrdd yn ormodol gan dwristiaeth hyd yn hyn. Mae ganddi hanes ddiddorol gan mai Breslau oedd enw'r ddinas pan oedd yn ran o'r Almaen. Mae'r plant a ysgrifennodd atom yn dod o bedwar ban y byd - gan gynnwys Korea a Rwsia.

**Pentywyn**

Wrth i'r newyddion yma gael ei ddanfon i'w brintio mae nifer o'r plant wrthi'n pacio am dair noson i ffwrdd ym Mhentywyn. Dyma'r tro cyntaf i nifer ohonynt fod i ffwrdd o'u rhieni dros nos felly mi oedd yna gyffro tawel i'w deimlo wrth i'r diwrnod ymadael agosau. Fe gewch newyddion y daith yn y rhifyn nesaf.



Owen a Rhys wrthi'n hau perlysiau.



Rhai o'r plant wedi arsylwi ar adeilad y Capel yn ofalus.



Plant heini? Fe ddylent fod wedi cerdded neu feicio i'r ysgol.



Haf a Carys yn cerdded i'r ysgol.

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Ymweliadau a Gweithgareddau

### Dyfeisio a Darganfod

Cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins ar y 25ain a'r 26ain o Ebrill. Mae Mr Collins yn ymweld â'r ysgol ddywaith y flwyddyn er mwyn datblygu sgiliau technoleg a gwyddonol y plant. Mae'r plant yn mwynhau cwblhau'r tasgau yn fawr iawn ac y mae gweithgareddau Mr Collins yn parhau i fod yn hynod o ddifyr.

### Penwythnos yn Llangrannog

Ar y 23ain o Ebrill fe deithiodd 25 o blant blynyddoedd 5 a 6 i wersyll yr Urdd, Llangrannog, am y penwythnos er mwyn cymdeithasu a chael llwyth o hwyl a sbri. Bu'r plant yn brysur iawn yn ystod y cyfnod yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol. Ar ôl y penwythnos, dychwelodd y plant i'r ysgol yn flinedig ond yn hapus iawn.

### Llyfrgell Genedlaethol.

Ar hyn o bryd mae arddangosfa arbennig iawn yn y Llyfrgell Genedlaethol o'r enw 'Dilyn Y Fflam'; sef hanes, darluniau a ffilm am y Gêmau Olympaidd. Cafodd blwyddyn 3, 4, 5 a 6 gyfle i ymweld â'r arddangosfa yn ddiweddar gan fwynhau cyflwyniadau ffeithiol am Y Gêmau trwy'r oesoedd. Buont hefyd yn cwblhau gweithgaredd ymchwilio a mwynhau ffilm unigryw am hanes y Cymry a lwyddodd i gynrychioli Prydain yn y gêmau. Diolch i Owen a Rhodri am fore difyr a diddorol iawn.

### Pêl-Droed

Yn ystod Gŵyl y Banc bu nifer o blant yr ysgol yn cynrychioli Clwb Pêl-droed Bow-Street yng ngystadleuaeth Cwpan pêl-droed ardal Aberystwyth. Roedd 7 ffeinal o oedrannau amrywiol; 5 ohonynt yn cynnwys tîm o glwb Bow-Street; tipyn o gamp i'r clwb ac i'r pentref. Cynhaliwyd yr achlysur cyffrous hwn ar Goedlan y Parc gyda 17 o blant yr ysgol yn mwynhau'r profiad arbennig. Yn ystod gêmau llawn cyffro enillodd y tîm dan 8 a chipio'r cwpan o ddwy gôl i un; gêm gyfartal gafodd y tîm dan 9 ac felly roedd yn rhaid rhannu'r cwpan. Ond colli, yn anffodus o 1 gôl i 0, wnaeth y tîm dan 10 oed. Llongyfarchiadau mawr i'r clwb a da iawn i bawb am ymdrechu mor arwrol.

### Merched Y Wawr

Cafodd yr ysgol rodd arbennig o focsys adar yn ddiweddar gan aelodau Merched Y Wawr Rhydypennau. Mi fydd y bocsys yn ddefnyddiol iawn i ddenu adar gwyllt ymysg coed aeddfed tir yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i Liz Lloyd Jones, Mair Lewis a Beryl Hughes am drefnu a chyflwyno'r rhodd hael.

### Clwb Cant

Canlyniad MisMai :
1af-£25-Lleucu Sion-Tyddyn Llwyn Llandre.
2il-£15-Teulu Mason, Gors Villa, Llandre.
3ydd-£10-Eileen Williams, Rhandir Isaf, Llangwyryfon.

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:**

**www.rhydypennau.ceredgion.sch.uk**



Rhai o'r plant wedi arsylwi ar adeilad y Capel yn ofalus.



**Rhodri Morgan yn cyflwyno hanes Y Gêmau Olympaidd yn Y Llyfrgell Genedlaethol.**



**Rhodd hael gan Merched Y Wawr - Liz Lloyd Jones, Mair Lewis a Beryl Hughes gyda'r Cyngor Ysgol.**



**Wedi cwblhau'r dasg! Un o weithgareddau Dyfeisio a Darganfod.**

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

# TASG Y TINCER

Wel, dyna braf oedd cael llond côl o enwau newydd yn anfon lluniau hyfryd ataf, ynghyd â rhai gan hen ffrindiau i'r Tincer! Dyma'r enwau: Lois Medi, Llandre; Alexis Phillips, Bow Street; Myfanwy Roberts, Penrhyn-coch; Elisa Martin, Penrhyn-coch; Jade Hutton, Y Borth; Seren Pugh, Bow Street; Elin Gore, Comins-coch; Elen Mary Morgan, Bow Street; Sion Lewis Davies, Llangeitho; Haf Evans, Capel Bangor; Jessica Mai Evans, Bow Street; Llio Tanat Morgan, Llandre; Kayla Alsopp, Penrhyn-coch; Morgan Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod y Garth; Garan Rhys ac Ela Glain Ebenezer Thomas, Llandaf.

Bu'n rhaid dewis enw'r enillydd allan o het gan fod y lluniau i gyd yn arbennig! Ti,**Elisa Martin** o Benrhyn-coch, sy'n ennill y tro hwn. Diolch i bob un ohonoch am eich lluniau, a da iawn ti, Elisa.

Rwy'n siŵr eich bod yn gwybod beth sy'n digwydd yn Bow Street ar fore Llun ola Mai? Ie, dyna chi, bydd y **fflam Olympaidd** yn dod trwy'r pentre. Mae'r fflam eisoes wedi ei chynnau yng ngwlad Groeg, ac mi fydd yn cael ei chludo mewn awyren i orllewin Lloegr cyn cael ei chario o amgylch y wlad, gan orffen ei siwrne bell yn Llundain ddiwedd Gorffennaf. Am daith!

Rhywbeth pwysig iawn arall sydd ar fin digwydd yw **Eisteddfod yr Urdd**, wrth gwrs, a hynny yn sir Gaernarfon. Pob lwc i bawb o ardal y Tincer sy'n cystadlu. Rwy'n siŵr bod nifer fawr ohonoch am fynd i'r 'steddfod. Gobeithio y gwnewch hi fwynhau ac y bydd yr haul yn gwenu drwy'r wythnos.

Y mis hwn, beth am liwio llun y bachgen yn cario'r fflam Olympaidd ar ei thaith? Anfonwch eich llun at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Mehefin 1af: Ta tan toc!




**Elisa Martin ar ôl iddi fod yn rhedeg Race for Life dydd Sul 13 Mai - roedd yn rhedeg y ras er cof am ei thad-cu a mam-gu (Eric a Gwenda Thomas). Mae ei thudalen "Just giving" yn dal ar agor pe hoffai unrhyw un ei noddi. www.raceforlifesponsorme.org/elisa1**



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed Rhif ffôn

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 350 | MAI 2012